# TAG ADRODDIADAU ARHOLWYR

## TAG (NEWYDD)
## CYMRAEG IAITH GYNTAF
## UG/UWCH

## HAF 2018

© WJEC CBAC Cyf.

Mae gwybodaeth am ffiniau graddau'r pwnc hwn ar gael ar wefan gyhoeddus CBAC fel a ganlyn: https://www.wjecservices.co.uk/MarkToUMS/default.aspx?l=en

**Dadansoddiad o'r Canlyniadau Ar-lein**

Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar wefan ddiogel CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i'r staff yn y ganolfan gyrchu'r wefan hon.

**Adroddiad Ystadegol Blynyddol**

Mae'r Adroddiad Ystadegol blynyddol (a gyhoeddir yn ystod ail hanner Tymor yr Hydref) yn rhoi canlyniadau cyffredinol pob arholiad y mae CBAC yn ei weinyddu.

© WJEC CBAC Cyf.

**CYMRAEG IAITH GYNTAF UNED 1**

**Tystysgrif Addysg Gyffredinol (Newydd)**

**Haf 2018**

**Uwch Gyfrannol/Uwch**

Profiad arbennig i'r arholwyr fu cyfarfod ac arholi pobl ifanc mor hawddgar a brwdfrydig – roedd y cwrteisi a'r parch yn fendigedig. Roeddynt yn amlwg wedi paratoi'n ofalus. Diolch yn fawr iawn am y croeso a dderbynwyd yn yr ysgolion unwaith eto eleni.

## Cyffredinol

Sicrhaodd mwyafrif y canolfannau ystafelloedd pwrpasol cyfforddus, tawel ac addas i arholi ynddynt. Mae hyn mor bwysig i'r ymgeiswyr ac yn gymorth wrth iddynt ganolbwyntio a chynnal trafodaethau heriol a hwythau yn amlwg yn nerfus. Derbyniwyd y taflenni gweinyddol i gyd yn drefnus gyda'r ymgeiswyr wedi eu nodi yn nhrefn teilyngdod.

Yn flynyddol ceisir rhoi arweiniad yn yr adroddiad hwn drwy nodi cryfderau trafodaethau ynghyd â meysydd i wella fel bod canolfannau yn gallu canolbwyntio ar rai agweddau posibl wrth addysgu. Fel y blynyddoedd blaenorol mae ansawdd y trafodaethau yn gyffredinol dda er yn amrywiol. Rhaid canmol gallu nifer o ymgeiswyr i ddewis a dethol gwybodaeth o'r testunau cyfan, ymresymu a dadansoddi'n ddeallus a dyfynnu'n berthnasol. Calonogol oedd clywed iaith raenus, naturiol ar draws yr ystod gallu a gallai'r goreuon gyfleu syniadau cymhleth, treiddgar yn glir.

Dyma ychydig o argymhellion cyffredinol sut y gall canolfannau wella ar berfformiadau'r ymgeiswyr.

- Byddai rhoi ffug arholiad i'r ymgeiswyr cyn ymweliad yr arholwr o fantais iddynt.
- Dylid atgoffa'r ymgeiswyr i beidio â chrwydro a rhaeadru'r hyn a adolygwyd ond yn hytrach gwrando ar union eiriad y cwestiwn.
- Mae angen atgoffa'r ymgeiswyr sut i barchu eraill yn y grŵp, sut i wrando'n dawel ar gyfraniadau eraill, a chyfrannu eu hunain pan ddaw'r cyfle. Roedd tuedd eleni gan sawl ymgeisydd i fachu diwedd brawddeg ymgeisydd arall a datblygu'r pwynt hwnnw eu hunain/torri ar draws ymgeisydd cyn i'r ymgeisydd orffen ehangu ar bwynt/siarad yn hirfaith ei hun heb adael i neb arall gael cyfle (a'r arholwr yn gorfod arwyddo iddo/iddi stopio)/porthi'n aml pan fo eraill yn siarad a dweud *'ia,ia'* yn gyson tra oedd ymgeisydd arall yn siarad. Roedd ambell ymgeisydd hefyd yn aralleirio pwynt rhywun arall, ac felly'n cyfrannu dim o'r newydd i'r drafodaeth.
- Mae angen dyfynnu'n gywir ac i bwrpas. Gall hepgor ambell air o ddyfyniad greu argraff o ddiffyg dealltwriaeth. Ond rhaid nodi hefyd fod angen gwylio rhag boddi mewn dyfyniadau ac wrth orddyfynnu a rhestru dyfyniadau collir hanfod y cwestiwn a chymhlethir yr ymateb. Weithiau mae un dyfyniad allweddol wedi ei blethu i lif y mynegiant gystal â dim.
- Dylid atgyfnerthu'r trafodaethau ar gyfer cwestiynau arddull/ technegau ffilm ac ieithwedd y cymeriadau ar draws yr ystod gallu.
- Tybed nad yw rhai ymgeiswyr yn gweld y ddrama yn fwy heriol na'r ffilm ac o'r herwydd yn paratoi'n fwy gofalus gan ddehongli gyda mwy o ddyfnder?



© WJEC CBAC Cyf.

**Siwan**

Cryfderau:

- dealltwriaeth o gymeriadau Gwilym Brewys a Llywelyn yn cael eu hamlygu a digon o dystiolaeth i gefnogi sylwadau
- gwybodaeth dda a dyfynnu perthnasol wrth drafod y cyfnod, y traddodiad Ffrengig, y themâu serch a chariad, diffyg cyfathrebu a chaethiwed
- treiddgarwch a manylder gan y goreuon wrth drafod *'naid i'r gwyll'*, perthynas Gwilym a Siwan (Act 1), y dyfyniad *'awr anterth…syrffed'*, delweddau araith Llywelyn, cymharu araith Llywelyn ag araith Gwilym, ieithwedd Alis
- y goreuon yn trafod y delweddau'n graff ac yn gallu cyfeirio at rannau eraill o'r ddrama i gyfoethogi eu sylwadau e.e. wrth sôn am y *'greal'* yn araith Llywelyn, yn sôn hefyd am Siwan yn ystyried ei hun yn *'llestr'* diwerth yn Act 1
- mwy eleni yn gallu esbonio pam roedd Llywelyn wedi dweud wrth Siwan mai hi grogodd Gwilym (h.y. y ffaith iddi ddefnyddio dadleuon gwleidyddol) - ymgeiswyr yn gallu gwahaniaethu'n well rhwng y penderfyniad i'w ddienyddio a'r penderfyniad wedyn mai fel *'lleidr pen ffordd'* y byddai'n cael ei grogi

Mae angen sylw ar y canlynol:

- diffyg dadansoddi araith Llywelyn gan ganolbwyntio'n unig ar ei deimladau yn datgelu ei gariad tuag at Siwan - dylid gallu cyfeirio a dehongli gan amlygu gwir ddealltwriaeth o ystyr y delweddau hyn
- diffyg ymwybyddiaeth o arferion y cyfnod – tuedd i ganolbwyntio ar y cymeriadau yn hytrach nag ateb y cwestiwn
- pam y dewisa Siwan gael ei chladdu'n unig yn Llanfaes?
- beth yw ystyr ei geiriau *'mae arna i ddyled i Sant y Cortyn'*?
- dulliau Gwilym o swyno Siwan – llawer yn colli cyfle i gyfeirio at yr arddull e.e. gweniaith a dychan, gormodiaeth a gorliwio ynghyd â'r cyfeiriadau at lenyddiaeth glasurol e.e. *Helen o Droea*
- angen mwy o sylw i nodweddion drama radio ac yn yr un modd i ba raddau y cawn gliwiau gan Saunders Lewis ar gyfer llwyfannu'r ddrama – goleuo, set, props, gwisgoedd, rôl Alis fel sylwebydd yn allweddol yn hyn o beth
- cyfle i fanylu ar ddadleuon Siwan dros beidio ag idlio i Gwilym ac i serch e.e. perygl gwleidyddol y sefyllfa, ei brawd yn Ffrainc, ofn cyfaddef iddi fyw celwydd, does dim lle i anrhefn serch mewn llywodraeth teulu a gwlad, Isabela yn rhy ifanc, bygythiad Gruffudd mab Tangwystl, gagendor oedran rhyngddi hi a Gwilym
- gellir rhoi mwy o sylw eto i ambell araith e.e. araith hyfryd, farddonol Siwan pan mae'n idlio i Gwilym .... *'am dy fod ti'n cofio blas pethau, a bod blas yn darfod mor fuan...am ei bod yn awr yn Galan Mai...'*
- ieithwedd Alis: yr iaith ddisgrifiadol yn Act 2 yn eitha da, ond angen mwy o ddyfynnu a chyfle i ddadansoddi ei llinellau diarhebol, iaith y cynghorwr a'r aeddfedrwydd yn Act 3, yr elfen bryfoclyd a'r sylwadau ar y noson yn Act 1
- er bod y drafodaeth ynghylch *pam* roedd SL wedi dewis ysgrifennu drama fydryddol yn reit dda mewn sawl canolfan eto nid oedd yr ymgeiswyr yn gallu manylu ar y farddoniaeth ei hun a rhagoriaethau'r ddrama fydryddol e.e. rhythmau, trafod gwirebau, ailadrodd, adleisio geiriau a phatrymau, cyffelybiaethau, trosiadau, odl, delweddau...



© WJEC CBAC Cyf.

**Y Tŵr**

Cryfderau:

- gallu rhesymu gan gyfeirio'n benodol wrth drafod pa un yw'r mwyaf ansicr yn Act 1 ac wrth ystyried a ydynt yn caru ei gilydd
- cynnig enghreifftiau o'r gwrthdaro yn Act 2 a byd cystadleuol y dosbarth canol rhagrithiol
- gallu trafod rhai agweddau ar iaith
- gallu trafod golygfeydd lle mae'r elfen o ofn yn cael ei amlygu orau
- dylanwad y mamau ar y ddau gymeriad
- trafod arwyddocâd delweddau megis y grisiau a'r trên yn ddeallus
- pwrpas y tŵr: cynnig eu syniadau, cyfeirio at ddyfyniad Goronwy Owen

Angen sylw ar y canlynol:

- cyfle i ddyfynnu mwy wrth drafod pob cwestiwn
- angen manylu ymhellach ar y gwrthdaro
- enghreifftio fwyfwy wrth ddadansoddi iaith, angen dadansoddi natur y ddeialog yn fanylach ac ieithwedd y cymeriadau
- wrth drafod pwrpas a symboliaeth y tŵr gellir mynd ar ôl agwedd y ddau gymeriad tuag ato yn llawnach, trafod y *'dringo'* yn fanylach, trafod y grisiau yn Act 3 a'u harwyddocâd
- **t**ystiolaeth o ffwndro rhwng Act 1 ac Act 3
- trafod y set yn fanylach (gan gynnwys y props), beth oedd yn cael ei gyfleu gan y bocsys a'r cyfarwyddiadau llwyfan
- pwysigrwydd DJ a Preis – angen mwy o fanylion i gefnogi ateb

**Hedd Wyn**

Cryfderau:

- trafodaethau da ar y cyfnod/effaith y rhyfel ar Drawsfynydd; rhai'n ddadansoddol iawn ac yn gallu cyfeirio'n benodol at lawer o olygfeydd
- dealltwriaeth dda o gymeriad William Morris, dyfynnu perthnasol gan gyfeirio at sawl golygfa
- gwaith camera/sain golygfa arbennig: cafwyd enghreifftiau o ddadansoddi treiddgar gyda manylder cyfeirio at waith camera a'i arwyddocâd, e.e. yr olygfa recriwtio
- gwrthdaro rhwng dau ddiwylliant: llawer yn gallu darlunio'r gwrthdaro Cymry-Saeson gan ddyfynnu; rhai'n ystyried ai gwrthdaro Cymry–Saeson ydoedd ynteu agwedd drahaus y Saeson at y Cymry; rhai'n gallu trafod y gwrthdaro ehangach rhwng dwy ochr yn y rhyfel
- Arianrhod: sylw da i awen Elis, y ferch berffaith, Merch y Drycinoedd, y cysylltiad â'r lleuad a'r byd Celtaidd; sylwadau da ar liw'r benwisg gan sawl grŵp, a sylwadau diddorol ar arwyddocâd y gusan. Roedd y goreuon wrth drafod sibrwd y farddoniaeth, yn dangos eu bod yn gyfarwydd â 4 rhan yr awdl ac ystyrient hynny wrth ateb
- ambell ganolfan â gwybodaeth dda am gerddi Hedd Wyn a'u defnydd yn y ffilm

Angen sylw ar y canlynol:

- llawer yn methu â thrafod y defnydd o ganeuon yn y ffilm ac yn methu deall arwyddocâd *'Myfanwy'* – brad serch; *'He was despised'* – cân Lizie yn cyfleu ei theimladau chwerw felys at Elis - câi'r caneuon eu henwi ond ni thrafodwyd eu harwyddocâd gan ddyfynnu



© WJEC CBAC Cyf.

- pwysigrwydd hiwmor yn y ffilm – nid hapusrwydd a golygfeydd lle ceir chwerthin rhwng y cymeriadau o reidrwydd yw hiwmor - angen cyfeirio at olygfeydd yn Litherland/y Ffosydd yn Ffrainc, y dychan....
- prin oedd y darlun o gymdeithas yn Nhrawsfynydd cyn dyfod unrhyw arwydd o ryfel e.e. agosatrwydd cymdeithas, yr uned deuluol yn bwysig, cynaeafu, y fam yn rheoli'r cartref, pwysigrwydd y capel yr eisteddfod a'r dafarn, cymdeithas Gymreig, ddiwylliedig, mwynhau mewn ffair, bywyd digyfnewid ers canrifoedd....
- ystyr y gair *'rhagrith'* yn achosi trafferth wrth drafod rhagrith crefydd
- câi nifer drafferth wrth ddadansoddi lliwiau yn y ffilm; cyfle i gyfeirio at fwy o olygfeydd
- cyfle i gael mwy o dreiddgarwch wrth drafod y clo; câi nifer o grwpiau drafferth i weld cysylltiad rhwng golygfa agoriadol y ffilm a'r olygfa glo
- yn gyffredinol, cyfosod golygfeydd gwrthgyferbyniol hefyd yn peri trafferth, gyda llawer yn cyfeirio at olygfeydd gwrthgyferbyniol mewn rhannau hollol wahanol o'r ffilm.

Diolch i'r athrawon am baratoi'r ymgeiswyr gystal ar gyfer yr uned hon, uned sy'n profi'n hynod o lwyddiannus.



© WJEC CBAC Cyf.

**CYMRAEG IAITH GYNTAF UNED 2**

**Tystysgrif Addysg Gyffredinol (Newydd)**

**Haf 2018**

**Uwch Gyfrannol/Uwch**

**Gweinyddol**
Diolch unwaith eto i'r canolfannau am sicrhau bod y ffolios yn ein cyrraedd yn drefnus a thaclus. Noder bod plygellau papur yn fwy hylaw i'w safoni na rhai plastig. Atgoffir canolfannau i sicrhau bod enw a dyddiad ar bob tasg a bod ffurfiau'r tasgau wedi'u nodi ar y daflen flaen. Aseswyd y gwaith yn ofalus a gwelwyd sylwadau ystyrlon a defnyddiol gan y mwyafrif o athrawon gyda'r goreuon yn tynnu sylw at wendidau yn ogystal â chryfderau. Atgoffir canolfannau ei bod yn arfer dda anodi Tasg 2 gyda 'b' (barn), 't' (tystiolaeth), 'cg' (croesgyfeirio) a 'g' (gwrthddadl) wrth farcio gan ei fod o gymorth wrth ddod i farn.

Roedd tystiolaeth o safoni mewnol gan y mwyafrif o ganolfannau a braf gweld mwy o sylwadau eleni yn cyfiawnhau pam roedd marc wedi cael ei newid.

**Tasg 1**
Gweithiau creadigol oedd fwyaf poblogaidd o ddigon eto eleni, ond roedd digon o dystiolaeth i awgrymu bod myfyrwyr wedi cael dewis eu ffurf eu hunain a phrin oedd y canolfannau osododd yr un ffurf a'r un teitl i bob ymgeisydd. Teimlwyd weithiau fod ambell ymgeisydd wedi dewis llunio gwaith creadigol er nad oeddent, o bosibl, yn ymgeiswyr creadigol! Roedd yr ymgeiswyr hyn yn aml yn mynd i drafferth wrth geisio llunio stori fer – ffurf sy'n gofyn am gryn dipyn o grefft a chynildeb. Ar draws y ffurfiau gwelwyd gwreiddioldeb ac ymgais deg i sicrhau undod, saernïo a chynllunio gwaith. Gan y goreuon, gwelwyd aeddfedrwydd, creadigrwydd a chyfoeth ieithyddol. Yn is lawr yr ystod mae angen mwy o sylw i ferfau cryno a sicrhau bod ymgeiswyr yn golygu eu gwaith cyn ei gyflwyno. Dyma air am bob ffurf.

**Pennod gyntaf o nofel**: Cymysg oedd yr enghreifftiau ddaeth i law eleni; cafwyd rhai penodau diddorol, llawn addewid ond gwelwyd hefyd ormod o benodau byrion nad oeddent yn hau unrhyw fath o linynnau storïol gan ei gwneud yn anodd dirnad beth fyddai trywydd gweddill y nofel. Yn ddiddorol, nododd un safonwr y byddai ambell stori fer welwyd wedi bod yn fwy llwyddiannus fel pennod gyntaf o nofel.

**Erthygl olygyddol/ysgrif i bapur newydd/adroddiad newyddiadurol**: Cafwyd enghreifftiau prin ond llwyddiannus. Noder mai erthygl **olygyddol** yw'r ffurf dan sylw ac felly mae cyfleu safbwynt neu ymateb personol yn hollbwysig. Gwelwyd gwell ymwybyddiaeth o gynulleidfa gyda'r goreuon yn llwyddo i fod yn gyfredol, yn procio ac yn ddychanol ar adegau.

**Stori fer:** Dyma'r dewis mwyaf poblogaidd o ddigon. Cafwyd amrywiaeth o destunau gyda 'Dianc' a 'Newid' yn destunau poblogaidd. Llwyddodd y goreuon i ysgrifennu'n gynnil ac awgrymog gan orfodi'r darllenydd i weithio'n galed a defnyddio'i ddychymyg. Roedd eraill yn dechrau'n dda ond yn colli ffordd ychydig wrth geisio datblygu'r plot ac nid oedd y digwyddiadau na'r teimladau'n argyhoeddi bob tro. Teimlad un safonwr oedd bod y cynllunio yn wannach yn y dasg hon nac yn yr ail a bod angen sicrhau'r un gofal ac amser paratoi i'r dasg hon hefyd. Gwelwyd disgrifio crefftus gan sawl ymgeisydd ond roedd tuedd, hyd yn oed ar y brig, i ysgrifennu'n orflodeuog yn hytrach na dethol disgrifiadau ac ansoddeiriau.



© WJEC CBAC Cyf.

**Dyddiadur:** Dewis poblogaidd. Cafwyd ambell ddyddiadur crefftus dros ben gyda'r ymgeiswyr yn llwyddo cynnal delweddau estynedig oedd yn ymestyn drwy'r gwaith. Roedd eraill yn tueddu mynd yn arwynebol wrth i'r ymgeisydd gyflwyno nifer fawr o gofnodion dros gyfnod hir o amser.

**Portread**: Cafwyd enghreifftiau o bortreadau annwyl a didwyll oedd yn darlunio a dehongli cymeriad yn gynnil a chofiadwy. Roedd eraill braidd yn gofnodol ac ystrydebol a sawl un yn llawer byrrach na'r 1000-2000 o eiriau gofynnol.

**Ymson:** Roedd hwn yn ffurf poblogaidd unwaith eto a gwelwyd ymsonau oedd yn cyfleu teimladau a sefyllfa oedd yn argyhoeddi. Tueddu i droi yn eu hunfan oedd rhai o'r ymsonau heb ddigon o ymdrech i sicrhau datblygiad yn y gwaith tra bo eraill yn cofnodi digwyddiadau yn hytrach nag ymateb iddynt. Nododd un safonwr iddi fwynhau darllen ymsonau mwy nag un cymeriad gan fod hyn yn cynnig llawnach golwg ar sefyllfa.

**Sgript:** Prin oedd y sgriptiau, ond braf gweld ambell ymgeisydd wedi rhoi cynnig ar y ffurf ac wedi cael hwyl wrth fynd ati i ddehongli'r cynnwys a'u haddasu'n greadigol. Roedd sylw da i dechnegau ffilm yn hytrach na dibynnu ar ddeialog ac roedd digon o wreiddioldeb yn ymateb yr ymgeiswyr.

**Cyfres o flogiau:** Cafwyd ambell enghraifft eleni ac roeddent bron yn ddieithriad yn ddifyr a darllenadwy tu hwnt. Darllenwyd un blog cofiadwy oedd yn llwyddo i gynnig sylwadau ar ddigwyddiadau cyfredol mewn modd ffraeth a difyr dros ben.

**Hunangofiant**: Ni welwyd enghraifft o'r ffurf hwn yn y ffolderi a safonwyd eleni.

**Tasg 2**

Cytunir bod dewis testun addas yn hollbwysig yn y dasg hon. Gwelwyd yr hen ffefrynnau megis ewthanasia ochr yn ochr â phynciau mwy cyfredol fel Brexit, hawliau merched a'n defnydd o blastig. Pwysleisir eto yr angen i droi testun yn gwestiwn y gellir ymateb iddo'n effeithiol. Rhan bwysig o hyn yw sicrhau cwestiwn fydd yn caniatáu gwrthddadlau gan fod gwneud hyn yn effeithiol yn rhan bwysig o feini prawf llwyddiant Band 1.

Unwaith eto eleni, pwysleisir mai tasg mynegi barn **ar sail ymchwil** yw'r dasg hon. Mewn ambell achos gwelwyd ymgeiswyr yn mynegi barn gref ond heb fawr ddim tystiolaeth ffeithiol ac ystadegol i ategu sylwadau. Ar y pegwn arall, gwelwyd ymgeiswyr yn cyflwyno llawer o ffeithiau diddorol ond heb ddigon o ymdrech i'w trafod a'u cymhwyso'n ddigonol i'w dadleuon. Pwysleisir bod angen cyflwyno dadleuon cymhleth i gyrraedd y brig ac mae'n rhaid wrth ymchwilio trylwyr ac eang i hyn ddigwydd. Cofier hefyd fod cyfeirio at ffynonellau a chynnwys llyfryddiaeth yn arfer dda er mwyn rhoi hygrededd i'r wybodaeth a gyflwynir. Diffyg datblygu dadleuon oedd maen tramgwydd ambell ymgeisydd tra bo eraill yn bodloni ar bwyso a mesur safbwyntiau eraill heb roi llawer o sylw i'w barn bersonol eu hunain. Fel nodwyd uchod, mae cyflwyno gwrthddadleuon yn hollbwysig yn y dasg hon ond gofaler hefyd fod y gwrthddadleuon hynny yn cael eu trafod a'u hateb yn dreiddgar. Mewn gormod o achosion, roedd y gwrthddadleuon yn cael eu crybwyll yn unig, a hynny'n aml yn y paragraffau clo.

Gwelwyd ymwybyddiaeth dda o rethreg araith a'r goreuon yn ei defnyddio'n gynnil heb fod yn ymwthiol a gor amlwg. Roedd rhai ymgeiswyr yn gorddefnyddio 'Mae' yn eu gwaith a byddent yn elwa o ddefnyddio mwy o ferfau cryno.

Gobeithiaf y bydd pob canolfan yn darllen a rhoi sylw manwl i'w hadroddiad unigol. Sylwadau cyffredinol sydd yma ond mae'r adroddiadau unigol yn cynnig sylwadau penodol i'r ganolfan dan sylw. Diolch i'r athrawon am baratoi'r ymgeiswyr cystal ar gyfer yr uned hon.



© WJEC CBAC Cyf.

**CYMRAEG IAITH GYNTAF UNED 3**

**Tystysgrif Addysg Gyffredinol (Newydd)**

**Haf 2018**

**Uwch Gyfrannol/Uwch**

Fel nododd un arholwr '*Mae'n fraint cael gweld safon yr ymgeiswyr, y cyfoeth o adnoddau iaith a'r gallu sydd ganddynt i ddehongli cerddi.'* Yn sicr cafwyd ymateb cadarnhaol iawn i'r cwestiwn ar y farddoniaeth eleni gyda thraethodau manwl.

**Adran A: Defnyddio Iaith**
Llwyddodd mwyafrif yr ymgeiswyr i ateb y cwestiynau *Defnyddio Iaith* i gyd ond fel caiff ei nodi isod siomedig eleni oedd safon 1a.

Dyma rai sylwadau all fod o gymorth, sylwadau sy'n canolbwyntio'n bennaf ar y prif anawsterau a welwyd.

**C1. (a)** Roedd hi'n syndod gweld bod y berfau eleni wedi peri cymaint o drafferth gan nad yw'n gwestiwn newydd. Roedd nifer o ymgeiswyr yn dibynnu ar allu ieithyddol naturiol i lunio brawddegau sy'n synhwyrol ond nid oeddent o reidrwydd yn cynnwys person ac amser ac felly heb ateb y gofynion. Gwelwyd patrwm mewn canolfannau o ymgeiswyr un ai'n rhoi tag amser neu beidio.

*'sonnir'*: ni chafwyd tag amser nac ychwaith *'gan'* i gyfleu'r amhersonol. Roedd llawer heb sylweddoli mai berf amhersonol oedd *'sonnir'* ac yn defnyddio goddrych.

*'ynddo'*: er bod y brawddegau yn synhwyrol roedd nifer uchel heb gynnwys person / gwrthrych gwrywaidd i ragflaenu'r arddodiad. Roedd *'ynddo'* yn cael ei ddefnyddio fel 'yn fy' yn bur gyffredin – 'ynddo 'mag i'.

Gwelwyd sawl 'gwêl y gŵr sydd ar y gorwel', digon da i Gerallt Lloyd Owen ond heb egluro ystyr a defnydd yn anffodus!

Gwelwyd rhai camgymeriadau gwirion, diofal fel peidio â chynnwys atalnod llawn oedd yn colli hanner marc.

**C1. (b)** (i) Roedd y mwyafrif yn gallu enwi'r fannod ac 'yn' traethiadol ond heb nodi yn union beth sy'n treiglo h.y. enw benywaidd unigol/ansoddair.

(ii) Llwyddodd y mwyafrif i adnabod y rhagenw a'r ferf ond y cysylltair achosodd drafferth.

(iii) Nifer yn gywir ac yn ennill 2 farc ond cafwyd sawl *eu fod/ei fod/bod nhw*. Roedd eraill yn hepgor yr atalnod llawn yn unig ac yn ysgrifennu'r frawddeg yn union fel ag yr oedd heb newid dim arall.

(iv) Nifer yn newid – 'cerddi' i 'cerdd' ond yn methu newid y ferf. Roedd *'dylwn'* yn broblem. Gwelwyd amrywiaeth eang – *dylaf/dylswn/dyliwn/dylwm/dylai /dylsaf/dylet.*



© WJEC CBAC Cyf.

(v) Prin iawn iawn oedd y rhai a allai wneud y cywiriad a'i esbonio yn y ddwy enghraifft. Yn aml nid colli marciau oherwydd nad oeddent yn gallu esbonio'r gwall a wnaed yma ond colli marciau gan nad oeddent wedi dod o hyd i'r gwall yn y lle cyntaf.

Llwyddai nifer i ysgrifennu *'rhagenw unigol'* ond ni lwyddwyd i ysgrifennu *'rhagenw blaen'* ac felly'n collli'r marc esbonio.

(vi) Cafwyd cynigion da iawn yma. Y gwendid mwyaf oedd y treiglad meddal – '*siop **l**eol, **d**rydanol'*. Roedd rhai ymgeiswyr yn ysgrifennu brawddeg gan ddefnyddio atalnod i wneud gwaith atalnod llawn ond mewn gwirionedd, dwy frawddeg oedd yma.

Credai ambell ymgeisydd mai enw person oedd 'Bwlbamwy' neu enw lle neu dref lle mae'r siop wedi'i lleoli.

(vii) Cafwyd atebion da iawn i'r cwestiwn hwn gyda'r goreuon yn llwyddo i uno brawddegau yn hyderus gan ysgrifennu darn cryno a chynhwysfawr. Llwyddodd y mwyafrif i gynnwys pob ffaith yn y darn. Collwyd marciau am ailadrodd *'cysylltu â'r cyngor'*. Llwyddodd nifer fawr i ddefnyddio'r berfau cryno i amrywio'r brawddegau felly rhaid canmol y canolfannau am fynd i'r afael â'r berfau afreolaidd e.e. 'caiff'. Roedd '*Bwriedir y Cyngor'*, *'Caiff y biniau ei gasglu'* yn wallau cyffredin. Roedd camgopio'n costio'n ddrud.

**Adran B: Barddoniaeth**

Unwaith eto eleni cafwyd traethodau hir a drwyddi draw teimlir bod gan yr ymgeiswyr ddealltwriaeth dda o'r cerddi. Roedd y traethawd ar **'yr ymdeimlad o berthyn'** yn llawer mwy poblogaidd.

Cryfderau

- Cafwyd t**rafodaethau cytbwys** ar y tair cerdd a llwyddodd yr ymgeiswyr i **saernïo traethawd** gan gynnwys paragraff agoriadol a pharagraff clo. Gwnaed ymdrech i lunio paragraffau agoriadol a oedd yn cyfeirio'n benodol at y cwestiwn gan geisio esbonio'n gryno sut roedd pob bardd yn ymateb i'r thema benodol. Gwelwyd ymdrech dda i grynhoi yn y clo gan ail ymweld â gofynion y cwestiwn. Braf gweld ymgeiswyr yn treulio amser yn cynllunio eu traethawd yn ofalus cyn dechrau arni.
- Gwelwyd y goreuon yn saernïo'u traethodau'n dda drwy drafod is-themâu perthnasol o fewn thema perthyn/brogarwch.
- Gallai'r mwyafrif llethol wau **thema ac arddull** yn ddeallus i'w trafodaethau. Cafwyd **dyfynnu** effeithiol, gyda hyd yn oed yr ymgeiswyr nad ydynt yn llwyddo i gyrraedd y brig.
- Rhyfeddir ar allu'r goreuon i grynhoi ffeithiau perthnasol gan arddangos, nid yn unig wybodaeth drylwyr am y cerddi, ond y gallu i ddehongli'n ddeallus a threiddgar. Mae aeddfedrwydd a threiddgarwch ambell un o'r goreuon yn anhygoel.
- Rhaid canmol y gallu i dynnu cysylltiadau rhwng y cerddi – cafwyd gwreiddioldeb yn hyn o beth.

Agweddau i'w hystyried ymhellach

- Eleni cafwyd mwy o **gymysgu rhwng cerddi** gan ddewis y gerdd anghywir i gydfynd â'r beirdd, ac o ganlyniad effeithiwyd ar y marc yn sylweddol. Roedd rhai ymgeiswyr wedi trafod y gerdd anghywir gan dybio mai *'Y Gŵr sydd ar y gorwel'* oedd cerdd Myrddin ap Dafydd/Gwenallt.



© WJEC CBAC Cyf.

- Roedd rhai wedi ychwanegu ymdriniaeth â cherddi ychwanegol wedi iddynt ddarganfod fod ganddynt amser. Yn anffodus, doedd y cwestiwn ddim yn gofyn am hynny.
- Cafwyd enghreifftiau hefyd o draethodau lle roedd tuedd i **orgymhlethu'r drafodaeth** wrth gymharu'r cerddi'n ormodol. Hynny yw, ar adegau roedd y sylwadau mor bytiog nes bod diffyg dilyniant a llif i'r drafodaeth. Cyd-drafodwyd y cerddi gan symud o un gerdd i'r llall ymhob paragraff a cholli darnau pwysig o gerddi a oedd mewn gwirionedd yn cyfleu eu hanfod. **Y strwythur mwyaf diogel i nifer o ymgeiswyr fyddai trafod un gerdd yn gyntaf a chychwyn cymharu wrth drafod yr yr ail a'r drydedd.**
- Cafwyd prinder dyfyniadau mewn rhai canolfannau. Dyma'r garfan gyntaf o ymgeiswyr nad ydynt wedi gorfod dysgu dyfyniadau cerddi ar gyfer trafod barddoniaeth yn y cymhwyster TGAU Llenyddiaeth Gymraeg. Gwelwyd ymgeiswyr eraill yn dyfynnu sawl llinell ar y tro, o bosibl gan eu bod wedi eu dysgu ar y cof, ond yn methu â chymhwyso dyfyniadau i'r cwestiwn a'r sylwadau.
- Gresyn oedd darllen nifer o draethodau lle gwelwyd dealltwriaeth sicr o gysyniadau ond diffyg manylder wrth gyfeirio at rannau penodol o'r cerddi yn faen tramgwydd. Dylid cadw mewn cof mai gwybodaeth fanwl ac uniongyrchol am y cerddi sy'n dod â'r marciau i ymgeiswyr yn hytrach na gwybodaeth gefndirol.
- Roedd tipyn o gymysgedd rhwng mesur rhydd a phenrydd.

Sylwadau cyffredinol sydd isod ar y cerddi unigol ond gobeithio y byddwch fel canolfannau yn rhoi sylw manwl i'r pwyntiau sydd wedi codi gan yr arholwyr. Eleni cafwyd tuedd i gael llai o wreiddioldeb wrth ymateb gan ddibynnu'n ormodol ar nodiadau sydd ar wefan adnoddau CBAC. Roedd hi'n amlwg wrth ymatebion rhai ymgeiswyr eu bod wedi dysgu nodiadau'n fecanyddol heb wir ddeall beth oedd ystyr y wybodaeth.

**C2.** **(a)** Llwyddodd y mwyafrif i gyfeirio at y gwahaniaeth rhwng Waldo Williams a'r ddau fardd arall o safbwynt y pwyslais ar berthyn i'r bobl/gymdeithas a'r tir tra oedd T. H. Parry-Williams a Gwyn Thomas yn pwysleisio'n fwy eu perthynas â'r tir a'r amgylchfyd.

**Moelni**

- Cyfeiriwyd at y defnydd o ddisgrifiadau negyddol yn soned T. H. Parry-Williams ond ni thrafodwyd eu pwrpas yn llawn gan bawb. Roedd sawl ymgeisydd yn gorbwysleisio'r negyddiaeth ac yn nodi nad oedd gan T. H. Parry-Williams gariad at ei fro gan ei bod wedi ei gwthio arno.
- Nodwyd gan sawl ymgeisydd hefyd nad yw *'Moelni'* am le penodol.
- Cafwyd tuedd i labelu'r soned – cyfeirio at dechnegau arddull ond heb ymhelaethu ar eu harwyddocâd neu eu heffaith.
- Gwelwyd camargraff gan rai ymgeiswyr e.e. cred bod *'henffurf y mynyddoedd'* yn sôn am y ffaith nad oedd yr ardal fel ag yr oedd hi yn yr hen ddyddiau a'r chwithdod a'r hiraeth a godai o hynny.
- Collwyd cyfle i ddehongli y *'cewri wedi bod erioed yn hir lyfnhau'r llechweddau ar bob llaw* ' gan gydnabod bodolaeth rhyw rymoedd ysbrydol y llechweddau.
- O'r rhai oedd wedi mentro i gyfeirio at fyfyrdod T. H. Parry-Williams yn y chwechawd, roedd yr ymdriniaeth o gwestiwn mawr tragwyddoldeb yn arwynebol ar y cyfan.
- Roedd nifer yn canolbwyntio ar y gorffennol/presennol a chwedloniaeth heb fynd i'r afael â'r diffyg crefydd a syniadaeth T.H. Parry-Williams am fywyd wedi marwolaeth. Collwyd cyfleoedd i gyfleu deuoliaeth y bardd sy'n dangos ei anallu i ddod i unrhyw gasgliad pendant ynglyn â bywyd a marwolaeth.
- Cafwyd dealltwriaeth lawn gan ambell ganolfan o'r elfen wyddonol ac agnostig ond roedd hwn ar goll gan nifer fawr o ganolfannau eleni.



© WJEC CBAC Cyf.

**Yma y mae fy lle**

- Roedd nifer wedi llwyddo i gyfleu hanfod y gerdd a sawl cysyniad ond prin oedd y rhai a drafodai'r gerdd yn ei chyfanrwydd. Amlhawyd geiriau wrth sôn am yr ymdeimlad o berthyn sydd gan y bardd at Flaenau Ffestiniog ond collwyd golwg ar yr hyn sydd ganddo i'w ddweud yn y gerdd.
- Edrychai'r mwyafrif ar y rhan gyntaf gyda'r gyffelybiaeth i'r cywion/ailadrodd y teitl/ disgrifiadau negyddol - ond prin oedd y rhai a gyfeiriai at ddiwedd y gerdd – *'hyd lefelau dyfnaf fy mod'* a'r defnydd o odl.
- Ni soniwyd gan nifer am y cyfeiriadau at y defaid a'r gylfinir ac arwyddocâd y *'pethau hen, Cymraeg...'* sef y pethau elfennol Cymraeg a ddylanwadodd ar Gwyn Thomas.
- Ni chyfeiriwyd at y diwydiant llechi *'darniwyd yn ddethau a ffrwydron'* wrth ddisgrifio crefft y chwarelwr.
- Fel gyda *Moelni*, cafwyd tuedd i labelu'r nodweddion arddull heb fanylu ar eu harwyddocâd.

**Preseli**

- Roedd ansawdd y drafodaeth ar y gerdd hon yn gryfach na'r cerddi eraill ar draws yr ystod marciau – gyda rhai, roedd yr ymdriniaeth o'r cerddi eraill wedi dioddef oherwydd eu bod wedi treulio gormod o amser ar hon.
- Cafwyd tuedd i drafod cefndir y gerdd a'r bardd yn hytrach na chymhwyso crefydd a daliadau gwleidyddol Waldo'n gelfydd wrth drafod llinellau penodol.
- Cyfeiriwyd ati gan nifer fel cerdd rydd gynganeddol.
- Gwelwyd camargraff gan rai ymgeiswyr e.e. y syniad mai cyfeiriad at leisiau'r pedair rhan mewn harmoni corawl yw'r *'un llef, pedwar llais'*.
- Roedd nifer wedi canolbwyntio'n ormodol ar fygythiad y weinyddiaeth amddiffyn a thema rhyfel ar draul trafod y ffaith bod Waldo eisiau gwarchod ei fro.
- Cyfeirwyd at drosiad y tŷ a'r brawdgarwch ond prin oedd y rhai a allai drafod arwyddocâd y palas, *'perl'* a'r *'drofa fer'.*
- Mae cyfle i drafod neges ehangach Waldo o'r Preseli yn ficrocosm o Gymru a'r byd ac yn batrwm i'w ddilyn.

**C2.** **(b)** Yn gyffredinol cafodd ymgeiswyr fwy o drafferth i gadw ffocws ar y cwestiwn a thueddwyd i drafod y cerddi'n fwy cyffredinol yn hytrach nag yng nghyd-destun **pigo cydwybod**. Aeth rhai ymgeiswyr ati i chwilio am themâu eraill oedd yn cysylltu'r cerddi e.e. rhyfel ac aberth ond heb berthnasu'r sylwadau i'r cwestiwn. Roedd tuedd i gynnig mwy o sylwebaeth gyffredinol ar y cerddi yn hytrach na mynd i'r afael â'r rhannau allweddol lle mae'r beirdd yn gwneud i'r darllenydd deimlo'n anesmwyth. Y gamp yma oedd dewis a dethol y rhannau perthnasol o'r cerddi er mwyn ateb gofynion y cwestiwn.

**Y Genhedlaeth Goll**

- Roedd ambell ymgeisydd yn trafod y cysyniadau ond heb wir esbonio'r milwyr a'r rhyfel, yr ymchwilio a'r cymharu.
- Yn aml ni chyfeirwyd at y colofnau papur newydd a'r modd y gwasgwyd newyddion am y colledion i ganol hysbysebion ysgafn.
- Yn aml hefyd ni chyfeiriwyd at y gerdd gyfan, yn arbennig y clo a *'troednodyn oer'* yr ymchwilydd modern.
- Ni lwyddodd nifer i argyhoeddi wrth drafod y *'Ni'* a'r '*Nhw',* cafwyd peth dryswch.
- Er bod y mwyafrif yn deall yr ergyd ni fanylwyd yn ddigonol ar gynnwys a chysyniadau'r gerdd.
- Roedd yr arddull yn gyffredinol wannach wrth drafod y gerdd hon.
- Gwelwyd rhai yn cymysgu rhannau o'r gerdd hon gyda *'Y Meirwon'* wrth sôn am y mamau dewrfud/chwarae rygbi a phledren mochyn.



© WJEC CBAC Cyf.

**Y Meirwon**

- Llwyddwyd i gyfleu dealltwriaeth dda o'r gerdd ond efallai nad oedd rhai yn gallu ei pherthnasau i'r cwestiwn yn ddigonol ac ni phwysleisiwyd y feirniadaeth yn ddigonol.
- Prin oedd y rhai a allai drafod cyfalafiaeth a sosialaeth sydd mor allweddol i ddeall ergyd Gwenallt wrth bwysleisio'r pigo cydwybod. Anwybyddai rhai ddyhead Gwenallt am gymdeithas deg, ddiddosbarth.
- Soniwyd am y llywodraeth ar fai yn trin y gweithwyr yn wael yn hytrach na pherchnogion y gweithfeydd a'r amodau gwaith.
- Collwyd cyfleoedd i sôn am grefydd a'r diffyg wtopia.
- Yma cymysgwyd rhwng diwylliannol a diwydiannol e.e. sôn am y cyfnod diwylliannol.

**Gwenllian**

- Roedd y mwyafrif yn deall y symboliaeth a rhai yn llwyddo i gymhwyso'r cefndir hanesyddol i bwysleisio'r pigo cydwybod.
- Llwyddodd y mwyafrif hefyd i weld y gobaith ac nad yw'n rhy hwyr adfer y sefyllfa.
- Roedd y goreuon yn llwyddo i gyfianwhau'r dewis o fesur e.e. *'cywydd yn fesur moli a marwnadu'n draddodiadol a hyn yn arwyddocaol yn 'Gwenllian'.*

O ystyried bod y cerddi hyn mor wahanol, roedd y mwyafrif wedi tynnu cysylltiadau deallus iawn.

**Ansawdd Ieithyddol**

Roedd ansawdd ieithyddol y mwyafrif yn dda ac ôl hyfforddi ar sut i gymharu cerddi drwy'r defnydd o gymalau/patrymau cymharu.

**Gwallau cyffredin**

tair bardd
y feirdd
tebygolrwydd yn lle tebygrwydd
dywedir Waldo
yng nglyn, yn o gystal
sonir y bardd
rhestri, bentyri
ymdrin âg
eu gilydd
a wnaeth farw
gyda'r linell
un cerdd
cyffylybiaeth
dri agwedd

Hoffwn ddiolch i'r athrawon am ysbrydoli'r ymgeiswyr a'u paratoi gystal ar gyfer yr arholiad.



© WJEC CBAC Cyf.

**CYMRAEG IAITH GYNTAF UNED 4**

**Tystysgrif Addysg Gyffredinol (Newydd)**

**Haf 2018**

**Uwch Gyfrannol/Uwch**

**Gweinyddol**

Cafwyd croeso cynnes yn yr holl ganolfannau fel arfer a chyfeiriodd yr holl arholwyr at y profiad arbennig o gyfarfod pobl ifanc brwdfrydig, deallus a chwrtais.

Trefnwyd ystafelloedd pwrpasol ar gyfer yr arholiadau bron bob tro. Mae cael lleoliad tawel heb ymyriadau o'r tu allan yn gymorth i'r ymgeiswyr wrth ganolbwyntio a chynnal trafodaeth. Mae cael bwrdd neu ddesg yn yr ystafell yn ddefnyddiol ac addas. Sicrhawyd bod y taflenni marciau i gyd yn barod erbyn i'r arholwyr gyrraedd y canolfannau ac eleni, roedd yr ymgeiswyr wedi eu gosod yn nhrefn teilyngdod bron bob tro.

Argymhellir yn gryf y dylai canolfannau roi ffug arholiad o flaen llaw. Pan na wneir hyn, mae'r myfyrwyr o dan anfantais fawr.

**Trafod**

Cafwyd trafodaethau dadansoddol a deallus yn y canolfannau a bu'n bleser gwrando ar yr ymgeiswyr ar draws y rhychwant gallu yn trafod y nofelau. Roeddent yn amlwg yn cymryd eu gwaith o ddifri ac yn mwynhau'r trafod estynedig a'r ymresymu er bod amodau arholiad yn heriol. Roedd hi'n dda clywed y bobl ifanc yn meddwl yn annibynnol ac yn cynnig syniadau newydd a gwahanol yn hytrach nag ailadrodd nodiadau neu sgyrsiau dosbarth. Roedd ambell ymgeisydd, fodd bynnag, yn ailadrodd pwynt rhywun arall drwy ei aralleirio, ac felly, ni chyfrannwyd dim newydd i'r drafodaeth er i'r ymgeisydd hwnnw siarad llawer.

Mae'n rhaid gwrando ar eiriad y cwestiwn ac ymateb i hynny. Roedd yr ymgeiswyr cryfaf yn ateb y cwestiynau'n benodol a threiddgar gan gymhwyso'u gwybodaeth yn effeithiol. Roedd ymgeiswyr gwannach yn fwy tueddol o grwydro oddi wrth y cwestiwn a thraethu ar yr hyn a baratowyd yn hytrach na'r hyn y gofynnwyd amdano. Mae'n arfer dda i'r ymgeiswyr wneud ymdrech fwriadol i gyfeirio nôl at y cwestiwn a chrynhoi safbwynt neu syniad yn berthnasol.

Mae'r gallu i gydweithio yn elfen sy'n cael ei hasesu. Gwyddai'r mwyafrif llethol o'r ymgeiswyr sut i barchu eraill yn y grŵp, sut i wrando'n dawel ar gyfraniadau eraill, a chyfrannu eu hunain pan ddeuai'r cyfle. Fodd bynnag, roedd tuedd gan ambell un i fachu diwedd brawddeg ymgeisydd arall a datblygu'r pwynt hwnnw ei hunan neu dorri ar draws ymgeisydd cyn i'r ymgeisydd orffen ehangu ar bwynt. Mae'n werth nodi hefyd nad yw'n briodol i ymgeisydd borthi'n aml a dweud pethau fel 'ie...ie,' pan fo eraill yn siarad. Mae'n tarfu ar eraill ac mae'n anodd i'r arholwr ymyrryd mewn sefyllfa fel hon rhag taflu'r ymgeiswyr i gyd oddi ar eu hechel.

**Manylder a gwybodaeth yn gyffredinol**

Eleni eto, nodir yma bod dyfynnu cywir a chyfeirio at olygfeydd penodol ac allweddol yn grefft sy'n medru hoelio ateb i gwestiwn. Roedd y dyfynnu ar y brig yn ardderchog – yn addas, yn helaeth ac yn bwrpasol, gyda rhai'n dyfynnu o'r deunydd synoptig yn ogystal ag o'r nofel osod. Yn ogystal â dyfynnu, mae gallu troi at nifer helaeth o fanylion am bethau fel digwyddiadau, disgrifiadau, lleoliadau, cymeriadau ac arferion, yn ddefnyddiol a phwysig



© WJEC CBAC Cyf.

wrth gefnogi safbwynt. Roedd manylder gwybodaeth ymgeiswyr yn amrywio. Cyfeiriodd arholwyr yn benodol at ddiffyg dyfynnu mewn rhai canolfannau, yn enwedig wrth ddefnyddio dyfyniadau i bwrpas.

Yn gyffredinol, nid yw'r wybodaeth am iaith ac arddull mor fanwl â'r wybodaeth am y cynnwys a'r cymeriadau ac mae hyn yn fater i weithredu arno. Mae ateb y cwestiynau ar arddull wedi bod yn her i nifer ar draws yr ystod gallu a'r ymatebion heb fod yn ddigon penodol. Cafwyd enghreifftiau o ymgeiswyr yn nodi cyffelybiaethau fel nodwedd ond yn methu wedyn ag enghreifftio cyffelybiaeth o'r nofel. Wedi dweud hynny, cafwyd trafodaethau disglair ar arddull gan rai.

**Yr elfen synoptaidd**

Dyma'r elfen lle cafwyd yr amrywiaeth mwyaf rhwng ymgeiswyr a rhwng canolfannau. Amlygwyd yr angen yn glir am fwy o ddarllen synoptig yn y mwyafrif o ganolfannau. Nid yw ambell ganolfan wedi deall pwysigrwydd yr elfen synoptig ac maent yn gwobrwyo'r myfyrwyr â marciau uchel yn eu hasesiadau pan nad yw'r myfyrwyr mewn gwirionedd yn croesgyfeirio'n ddigon manwl nac yn trafod digon o enghreifftiau.

Mae natur a nifer y testunau llenyddol yn amrywio'n fawr o ymgeisydd i ymgeisydd ac o ganolfan i ganolfan. Roedd nifer dda wedi darllen yn eang dros ben gan gynnwys gweithiau creadigol eraill gan yr un awdur. Gwelwyd cyfeiriadau deallus, aeddfed at sylwadau beirniaid llenyddol gan amryw o'r ymgeiswyr hefyd. Nid oedd rhai ymgeiswyr cryf a oedd yn gwybod a deall y testun gosod yn arbennig o dda wedi cyfrannu fawr ddim yn synoptaidd. Effeithiodd hyn ar eu marc. Yn rhy aml, dim ond un neu ddau destun byr fel stori fer neu gerdd (weithiau o'r fanyleb Safon Uwch neu TGAU) oedd yn cael eu defnyddio.

Mae angen rhoi sylw gofalus i'r cysylltiadau gyda'r nofel osod a chymhwyso'r darllen estynedig i'r hyn sy'n cael ei drafod. Mewn nifer o ganolfannau, roedd ymgeiswyr ar draws yr ystod gallu yn gwneud cysylltiadau perthnasol a chraff rhwng y nofel osod a darnau eraill o lenyddiaeth gan ddangos iddynt ddarllen yn helaeth iawn y tu allan i'w cwrs. Ond mewn nifer o achosion, roedd y cysylltiad yn llac a'r trafod yn bytiog iawn – rhyw frawddeg neu ddwy cyn symud ymlaen. Hawdd enwi nofel neu stori ond rhaid hefyd trafod eu harwyddocâd, cyfeirio at ambell olygfa allweddol a dyfynnu os am gymharu yn llwyddiannus a threiddgar. Rhaid nodi hefyd fod arholwyr yn gallu gweld yn glir pan fydd ymgeisydd yn enwi nofel neu stori neu gerdd ond heb fod wedi eu darllen.

Mae plethu cyfeiriadau perthnasol at weithiau llenyddol eraill i'r drafodaeth yn sgil y dylid ei ymarfer gyda'r ymgeiswyr. Bydd cyfle i'r ymgeiswyr gyfeirio at yr elfen synoptaidd ar ddiwedd yr arholiad ond mae'n llawer iawn gwell os ydyn nhw'n trafod y gweithiau llenyddol eraill pan fydd cyfle perthnasol yn codi yn ystod yr arholiad e.e. wrth iddyn nhw drafod rhyw thema benodol neu nodwedd cymeriad yn y nofel osod. Dyma'r arfer orau a byddai ymarfer hyn o fudd mawr i'r ymgeiswyr.

**Blasu**

Dyma'r ail flwyddyn i'r nofel hon gael ei harholi a braf gweld cynnydd yn nifer yr ymgeiswyr a'r canolfannau sy'n ei hastudio. Roedd yr ymgeiswyr yn amlwg wedi gwir fwynhau'r nofel a soniodd sawl un am ei chyfoesedd a'i pherthnasedd. Trafodwyd y cymeriadau a'r berthynas rhyngddynt yn dda ar draws yr ystod e.e. yr elfen greulon yn Jennie a'i pherthynas â Pegi, ond roedd angen mwy o fanylion, yn enwedig gan ymgeiswyr band 2. Llwyddwyd hefyd i drafod nifer o nodweddion cymdeithas y pentref gan gynnwys crefydd, agweddau at salwch meddwl a chymwynasgarwch gan gyfeirio'n benodol at enghreifftiau. Roedd ymgeiswyr yn gyfforddus yn trafod themâu megis methiant i gyfathrebu – Jennie, Annie a Jac, Huw a



© WJEC CBAC Cyf.

Maria ond mae modd manylu a myfyrio mwy eto yma. Deallwyd arwyddocâd y gwahanol fwydydd e.e. pwysigrwydd 'bara' ar y diwedd a chafwyd enghreifftio da o symbolau yn gyffredinol.

Agweddau i ganolbwyntio arnynt

- Disgwylir mwy o ddyfnder trafodaeth a dadansoddiad yn gyffredinol wrth drafod arddull. Mae angen gallu enghreifftio a sôn am gyffelybiaethau, trosiadau, gwrthgyferbyniadau, penodau drwy lygaid person gwahanol, monologau - ystyried eu defnydd/ pwrpas/ effeithiolrwydd. Mae angen mwy o sicrwydd wrth ddefnyddio termau gwerthfawrogi llenyddiaeth.
- Ystyried a thrafod ieithwedd y cymeriadau – a ydy eu hiaith nhw'n ddigon gwahanol o ystyried eu hoed a'u cefndir amrywiol?
- Gellir mynd ar ôl mwy o nodweddion y gymdeithas, e.e. tlodi, ymateb pentrefwyr i ymweliad sipsiwn. Wrth drafod y newid yn y gymdeithas, cofier yr hyn a ddywed Jac t. 249. Gellir hefyd sôn am y Saeson yng Nglanrafon a'r math o bobl a chymdeithasau sy'n cwrdd yn y caffi.
- Mae angen mwy eto o ddyfnder a manylder gwybodaeth wrth drafod yr olygfa gyda Davey H. a Pegi – mwy am yr hyn y sgyrsiant amdano a'r hyn a ddeellir am y cymeriadau yn y sgwrs, mwy am y newid yn Pegi, mwy am rwystredigaethau DH, mwy o sylw i glo'r olygfa hon.
- Dylid trafod y 'picnic' wrth ystyried y 'bara'
- Dylid ystyried y pethau sy'n absennol o'r nofel a'r gymdeithas.

**Rhai o'r gweithiau synoptig y cyfeiriwyd atyn nhw wrth drafod *Blasu* (y rhestr yn fyrrach am fod llai o ganolfannau*)*:**
*Yn y Gwaed* (GVJ), *Llanw* (MSR), *UNOL* (CP), *Fel Aderyn* (MSR), *Martha Jac a Sianco* (CL), *Y dylluan wen* (AJ), 'Glanhau Ffenestri' (SE), 'Y Ffordd' (DI), 'Sglyfaeth' (MWJ), *Y Tŵr* (GP), *Abermandraw* (RhI), *Gyrru Drwy Storom* (AG gol.)

**Dan Gadarn Goncrit**

Cafwyd trafodaethau aeddfed a threiddgar ac roedd yr ymgeiswyr yn amlwg wedi mwynhau darllen a thrafod y nofel. Roedd nifer ohonynt yn gallu cyfeirio at sylwadau beirniaid llenyddol ac at athroniaeth lenyddol Mihangel Morgan ei hun, ond ar yr un pryd yn lleisio barn annibynnol. Roedd y mwyafrif helaeth yn gyfforddus a hyderus yn trafod rhai agweddau penodol yn fanwl e.e. arwyddocâd y teitl, cymeriadau (yn arbennig Mama a Papa Losin), amwysedd ar ddiwedd y nofel, rhai agweddau ar natur y gymdeithas. Nododd nifer o'r arholwyr bod y drafodaeth ar yr Adran Geltaidd ac ar ddarlithwyr y Brifysgol yn gryfach eleni gyda mwy o ymgeiswyr yn gallu trafod y gwahanol gymeriadau a'u harwyddocâd mewn manylder ynghyd â'r dychan miniog. Er hyn, mae angen mwy o sylw o hyd i ddarlithoedd Maldwyn. Cyfeiriodd arholwyr hefyd at ymgeiswyr oedd yn llwyddo i edrych ar y darlun mawr yn ogystal â'r manylion wrth drafod themâu megis diffyg cyfathrebu. Mae trafod iaith ac arddull yn dal yn wannach ac yn fwy arwynebol na'r elfennau eraill yn yr arholiad gweler isod hefyd.

Agweddau i ganolbwyntio arnynt

- Mae angen trafod yr amrywiaeth arddull yn y nofel gyda manylder a dyfynnu'n berthnasol. Roedd tuedd gan ymgeiswyr ddefnyddio'r un enghreifftiau yn ystod trafodaeth.



© WJEC CBAC Cyf.

- Mae angen mwy o enghreifftiau o gymariaethau a throsiadau trawiadol/eithafol/ arwyddocaol/doniol. Ond rhaid cofio bod ‘arddull’ yn cwmpasu nifer o nodweddion eraill hefyd.
- Dylid manylu’n fwy trwyadl ar olygfeydd penodol – tuedd i fod yn orgyffredinol.
- Mae angen dangos pwysigrwydd golygfa Alis yn gweini yn Caffi Jones a sut mae gwahanol linynnau’r stori yn dod at ei gilydd yma.
- Cymdeithas yn Llanhowys – e.e. ai geto i’r Cymry sydd yma o gofio taw yma mae Cymry’r nofel yn straffaglu byw?
- I ba raddau mae Mal yn gwau gwe o gelwyddau ac yn caethiwo ei hun yn ei we ei hun?
- Ai Alis yw prif gymeriad y nofel?
- Mae angen trafod ymateb i Mared fel Mam e.e. pam mae Mared yn gwrthod cydnabod bodolaeth y ferch a laddwyd.
- Pa un yw’r cymeriad cryfaf, Mama Losin neu Tada Pwdin Mawr?
- Dylid trafod y syniad bod Maldwyn a Camel yn cyfnewid rôl.
- Cymeriad Tanwen e.e. ydy hi’n gymeriad paradocsaidd?
- Dylid trafod cyfeiriadaeth at gyfryngau’r byd modern, yn enwedig at ganeuon.
- Mae angen rhoi sylw i ddarlithoedd Maldwyn a’i waith fel darlithydd.
- Dylid rhoi sylw i glo'r nofel.

**Rhai o’r gweithiau synoptig y cyfeiriwyd atyn nhw wrth drafod *Dan Gadarn Goncrit***
*Lladd Duw* (DP), *Pantglas, Hen Bethau Anghofiedig* (MM), *Cestyll yn y Cymylau* (MM), *Dirgel Ddyn* (MM), *O Ran* (MH), *Monica* (SL), *Heulfan (LlO), Mr Blaidd (LlO), Ffydd Gobaith Cariad (LlO), Hen Blant Bach (GP), Annwyl Smotyn Bach (LlR), Tra bo Dau (AC), Blasu (MSR), Traed Mewn Cyffion (KR), Seren Wen ar Gefndir Gwyn (RLl), Cur y Nos* (GVJ), *Pan Oeddwn Fachgen(MM), Edau Bywyd (EW), Gweledigaethau’r Bardd Cwsc (EW)*, *Melog* (MM), *Neb Ond Ni,* (MRh), *Hi yw fy Ffrind* (BG), *Y Ferch ar y Ffordd* (LlR), *Yr Ergyd Olaf (LlO),* nifer o straeon byrion gan MM *e.e.* ‘Chwilen’, ‘Tra bo dau’, ‘Derfydd Aur’*;* straeon o *Saith Pechod Marwol* yn enwedig ‘Pe bai’r Wyddfa i gyd yn gaws’ *(MM),* ‘Hon’ (THPW); ‘Dim Ond Cymraeg Aberteifi’ (CWJ); ‘Cydwybod’ (MM)

**Martha, Jac a Sianco**

Roedd gan yr ymgeiswyr ddealltwriaeth dda o’r cymeriadau a’r themâu yn gyffredinol. Cyfeiriodd rhai arholwyr at drafodaethau craff ar arwyddocâd ffiniau yn y nofel ac ar ‘hollbresenoldeb’ Mami a’i dylanwad hi ar bob cymeriad unigol. Yn gyffredinol, roedd arwyddocâd symbolau yn cael eu trafod yn dda ond mae manylder a dyfynnu bob amser yn codi perfformiad i lefel uwch. Nododd rhai arholwyr nad oedd digon o hyn. Fel y nodwyd yn adroddiad y llynedd, arwynebol oedd y trafodaethau ar iaith ac arddull yn aml.

Agweddau i ganolbwyntio arnynt

- Mae angen mwy o ddyfynnu.
- Dylid ystyried ehangder y posibiliadau wrth drafod arddull Caryl Lewis. Mae angen manylu ar gyffelybiaethau, trosiadau a disgrifiadau ond rhaid cofio bod modd mynd y tu hwnt i hynny hefyd.
- Strwythur y nofel. Wrth drafod sut y defnyddiodd Caryl Lewis dymhorau’r flwyddyn amaethyddol fel cynfas i’w nofel gellid bod wedi treiddio’n ddyfnach eto. Mae tuedd hefyd i sôn yn unig am drefn y tymhorau wrth drafod y strwythur - gellid bod wedi edrych yn ehangach ar hyn e.e. y camau yn ninistr y teulu.
- Gellir enghreifftio golygfeydd cyferbyniol sy’n dilyn ei gilydd. Y duedd oedd dewis unrhyw ddwy olygfa o wahanol rannau o’r nofel.
- Dylid ystyried ymateb y gwahanol gymeriadau i wahanol adegau o’r flwyddyn.



© WJEC CBAC Cyf.

- Pwysigrwydd Cae Marged. Cyfeiriwyd at rai golygfeydd a osodwyd yno, ond ychydig a allai fanylu arnynt a'u harwyddocâd. Yn ogystal â'r babi, dyma lle mae'r dderwen, y ffin gyda thir Wil, a'r bwgan brain. Dyma lle mae'r barlys yn cael ei hau a dyma lle mae Jac yn cael ei strôc.
- Mae angen mwy o ddyfnder wrth drafod arwyddocâd y dderwen.
- Mae angen adnabyddiaeth well o'r 'Jac ifanc' a'r hyn sydd wedi ffurfio ei gymeriad erbyn i ni gyfarfod ag ef yn y nofel. Ystyried effaith colli ei dad arno e.e. rhesymau Jac dros losgi macyn ei dad.
- Beth yw cryfderau a gwendidau'r nofel e.e. oes tuedd i orgatalogeiddio ymadroddion ac idiomau cefn gwlad? Oes gorddefnydd o frain?
- Symboliaeth y lliw 'melyn' e.e. lliw hoff flodyn Martha sef yr eithin, ffrog felen, melyn yw lliw cap y botel strycnin, gwallt Judy yn felyn, modrwy Mami...
- Dirywiad/dadfeiliad cefn gwlad: cyfle i sôn am y Saeson yn treiddio i mewn, llai mewn angladdau, y teulu ar gyrion cymdeithas, llai o gydweithio gyda chymdogion, prinder pobl ifanc, y newid yn y caffi.

**Rhai o'r gweithiau synoptig y cyfeiriwyd atyn nhw wrth drafod *Martha Jac a Sianco***
*Y Graig* (HLl), *Cysgod y Cryman* (IFfE), *Un Nos Ola Leuad* (CP), *Yn y Gwaed* (GVJ*), Ffydd Gobaith Cariad* (LlO), *Amdani* (CL), *Y Bwthyn* (CL), *Y Rhwyd* (CL), *Y Gweriddyn* (CL), *Fel aderyn (*MSR*), Dal i fynd* (SM), *Y Dŵr* (LlJ), *Tri diwrnod ac angladd* (JGJ), *Pantglas* (MM), *Lladd Duw* (DP*), Llanw* (MSR), *Monica* (SL), *O tynn y gorchudd* (AP), *Yn y tŷ hwn* (SN), *Dŵr yn yr Afon* (HT), *Naw mis* (CL*), Traed mewn cyffion* (KR), *Te yn y grug* (KR), *Gwales* (CD), *Plu* (CL) yn enwedig 'Wyau Tseina', 'Pe bai'r Wyddfa i gyd yn gaws' (MM), *Saith pechod marwol* (MM), *Saith Oes Efa* (LlM) yn enwedig 'Dynes', *Dau gyfandir* (MH), *Cysgodion* (SE), Y Cynfeirdd, 'Pellhau' (Gerwyn Williams), 'Tŷ'r Ysgol' a 'Moelni' (THPW), 'Gwaddol' (CWJ), 'Yma mae fy lle' (GT). 'Preseli' (Waldo), 'Gwaddol' (CWJ), 'Cynhaeaf' (DJ), Ffermdai (BMD), 'Cân yr arad goch' (Ceiriog), 'Mis Mai a mis Tachwedd' (DaG),

**Un Nos Ola Leuad**

Rhaid canmol y goreuon am ddangos blaengaredd gan fwynhau wrth ymateb i gwestiynau heriol. Cyfeiriwyd at ddehongliadau ysgolheigaidd, yn arbennig waith Menna Baines, ond doedd y goreuon ddim yn orddibynnol arnynt. Braf oedd gweld annibyniaeth barn. Mae ymgeiswyr sy'n cael eu cyflwyno i erthyglau Emyr Llewelyn yn dueddol o fynd i gors wrth geisio cymhwyso Jung a Freud ac ati i'w sylwadau.

Braf gweld bod nifer o agweddau a nodwyd yn yr adroddiad diwethaf wedi gwella mewn sawl canolfan e.e. y drafodaeth ar emynau (er bod sawl un yn dal i ddweud bod y gân werin 'Yr eneth gadd ei gwrthod' yn emyn ac yn trafod adnodau yn lle emynau weithiau) a'r drafodaeth ar y ffordd mae'r bennod 'hel llus' yn ddarlun o fywyd y bachgen.

Amrywiol oedd yr ymateb i gwestiynau'n ymwneud ag arddull. Yn ôl un arholwr, roedd y mwyafrif 'wedi ymdopi'n arbennig o dda gyda'r cwestiynau crefft ac arddull' ond roedd rhai arholwyr eraill yn nodi bod y gallu i enghreifftio a thrafod iaith ac arddull yn siomedig iawn yn y canolfannau y buon nhw ynddynt.

Agweddau i ganolbwyntio arnynt

- Mae angen dyfynnu helaethach drwyddi draw, ond yn enwedig wrth enghreifftio arddull.
- Dylid rhoi mwy o sylw ar dechneg rhagfynegi yn y nofel (gweler rhai sylwadau isod hefyd).



© WJEC CBAC Cyf.

- Cymharu arddull pennod 8 (a diwedd pennod 15) â iaith gweddill y nofel: mae angen dadansoddi ac enghreifftio gan fynd ar ôl delweddau/cystrawen/geirfa/berfau; gwelwyd tuedd i grwydro at y cynnwys yn hytrach nag aros gydag arddull. Hefyd, mae angen sicrhau bod 'cymharu' yn digwydd pan ofynnir am hynny.
- Mae angen dadansoddi mwy gofalus a thrylwyr o'r bennod agoriadol a'r modd y mae'n ddrych o'r gymdeithas gyfan/yn rhagfynegi digwyddiadau'r nofel.
- Llwyddodd y mwyafrif llethol drafod dylanwad crefydd i ryw raddau, ond mae cyfle i amlhau sylwadau gan gyfeirio at dystiolaeth wrth drafod rhagrith crefydd a'i analllu i gynnig cysur parhaol i'r gymdeithas.
- Mae angen gwell dealltwriaeth o'r Diwygiad a'r Rhyfel Mawr a'u heffaith ar y gymdeithas a'r cymeriadau.
- Er bod y drafodaeth ar gynnwys ac arwyddocâd yr emynau'n gwella, mae modd hoelio mwy o sylw ar sut y maent yn rhagfynegi digwyddiadau'r nofel a'r thema marwolaeth a lle gwell.
- Strwythur. Er bod pob ymgeisydd yn sylweddoli bod diffyg trefn gronolegol i'r nofel, ychydig allai ddweud llawer mwy na'r ffaith ei fod yn cyfleu dryswch yr awdur. Cyfle i sôn am y 'daith', llif yr ymwybod, atgof o fewn atgof, delwedd y lleuad, eironi, cyfosod a gwrthgyferbynnu golygfeydd. Mae modd cyfeirio at y newid sy'n prysuro'r dirywiad yn ail hanner y nofel.
- Y drafodaeth ar symbolau. Roedd tuedd i'r ymgeiswyr gyflwyno rhestr o'r symbolau'n hytrach na chanolbwyntio ar y ffordd y gwnaeth Caradog Prichard eu defnyddio.
- Dylid ystyried cyfnodau o hapusrwydd ym mywyd y bachgen
- Breuddwydion: mae lle i gynnig sicrach gwybodaeth am gynnwys y breuddwydion i gyd fel bod modd trafod eu harwyddocâd yn fwy llwyddiannus.

**Rhai o'r gweithiau synoptig y cyfeiriwyd atyn nhw wrth drafod *Un Nos Ola Leuad***

*Abermandraw* (RhI*), O Ran (*MH*), Rhwng Noson Wen a Phlygain (*SE*), Cysgodion (*SE), *Blasu* (MSR), *Hogyn Syrcas* (MAP), *I Dir Neb* (EW), *Bitsh* (EW), *William Jones* (TRH), *Chwalfa* (TRH), *Yn y Gwaed* (GVJ), *Wrth fy nagrau i* (AT), *Si Hei Lwli* (AT), *O tynn y gorchudd* (AP); *Dan Gadarn Goncrit* (MM), *Pantglas* (MM), *Y Bwthyn* (CL), *Martha Jac a Sianco* (CL*), Traed mewn Cyffion* (KR), *Traed Oer (ME), Gyrru Drwy Storom* (AG gol.), *Syllu ar Waliau* (FfD), *Caersaint* (AP), *Rhannu'r Tŷ* (ELR), Y llyffant (RE), *Siabwcho* (MLJ), *Streic* (ELR), *Milwr Bychan Nesta* (AI), *Llanw* (MSR), *Pijin* (SN), *Brwydr y Bradwr* (CR*), Te yn y Grug* (KR*), Afal Drwg Adda* (CP), *Ffair Gaeaf e.e.*'Y Cwilt','Y Taliad Olaf', 'Buddugoliaeth Alaw Jim' (KR*),* perfformiad o ddramâu *'Y Tad' a 'Wy, Tships a Nain', 'Taith' (*MaD), *'Y Sul'* (CWJ*),* Pryddest *Terfysgoedd Daear* (CP)



© WJEC CBAC Cyf.

**CYMRAEG IAITH GYNTAF UNED 5**

**Tystysgrif Addysg Gyffredinol (Newydd)**

**Haf 2018**

**Uwch Gyfrannol/Uwch**

Dyma'r ail dro i'r fanyleb yn ei ffurf bresennol gael ei harholi a chalonogol oedd yr ymateb. Roedd gan fwyafrif llethol yr ymgeiswyr ddealltwriaeth dda o'r gofynion, ac roedd yn amlwg bod canolfannau wedi ymgyfarwyddo â'r fanyleb ac wedi ymateb yn gadarnhaol iawn i gyngor ac arweiniad y bwrdd arholi. Roedd mwyafrif yr ymgeiswyr wedi ceisio ateb yn estynedig gan arddangos gwybodaeth eithaf da am gynnwys y testunau gosod. Fodd bynnag, mae angen i rai canolfannau roi mwy o sylw i ofynion penodol y cwestiynau, a sicrhau bod yr ymgeiswyr yn bwrw'r meini prawf er mwyn gallu ennill marciau uwch.

**Adran A: Rhyddiaith yr Oesoedd Canol**

**C1. (a)**

Roedd fel petai'r cwestiwn hwn wedi gwreiddio erbyn eleni a gwelwyd mwy o hyder gan ganolfannau wrth gyfeirio at y tair agwedd o fewn y cwestiwn – digwyddiadau'r dyfyniad, pwyntiau arwyddocaol a sylwadau cyd-destunol. Gwelwyd nifer o ymgeiswyr yn ateb yn effeithiol a threiddgar gan gyfeirio'n benodol at arwyddocâd cymalau o'r dyfyniad yng nghyd-destun gweddill y chwedl.

Roedd gan bron bob ymgeisydd ddealltwriaeth dda o ddigwyddiadau'r chwedl a gallent grynhoi cynnwys y darn a ddyfynnwyd yn bur drefnus. Gwelwyd ambell gamargraff. Credai nifer o ymgeiswyr mai Afon Llinon oedd y ffin rhwng Iwerddon ac Ynys y Cedyrn, ac mai cyrraedd Iwerddon i achub Branwen oedd cymhelliad Bendigeidfran i weithredu fel pont. Cyfeiriodd nifer at frenin Iwerddon fel Martholwch.

Er bod llawer o'r ymgeiswyr yn deall yr hyn a olygwyd wrth ofyn iddynt gyfeirio at '*arwyddocâd yr hyn sy'n digwydd yn y darn'*, roedd gormod o ymgeiswyr ar y bandiau is yn bodloni ar adrodd cynnwys y digwyddiadau yn hytrach nag esbonio'r arwyddocâd. Roedd diffyg manylu digonol hefyd yn amharu ar nifer o atebion. Eto, gwelwyd cyfeiriadau perthnasol hefyd gan gynnwys cyfeiriadau at sarhad gwreiddiol Efnysien fel achos y drwgdeimlad yn y dyfyniad, at arwyddocâd y ceffylau a'r cysylltiad rhwng hynny a'r gosb, at y diniwed yn dioddef, at iselhau statws Branwen ac at wendid Matholwch fel brenin. Defnyddiai nifer o ymgeiswyr gymalau ac ymadroddion a arweiniai at ddadansoddi, fel '*Mae hyn yn arwyddocaol oherwydd yn y cyfnod… ' , 'Roedd arwyddocâd pellach i hyn oherwydd…' ,* ac '*Arwyddocâd symbolaidd oedd i hyn oherwydd..'*
.
Parhâi rhai ymgeiswyr a chanolfannau i ddehongli'r '*cyd-destun'* fel aralleirio digwyddiadau'r chwedl gyfan, ond prinnach oedd yr enghreifftiau eleni. Roedd ymgais i gyfeirio at ddigwyddiadau cynharach neu ddigwyddiadau a ddeilliai o'r darn dan sylw, ond doedd y sylwadau, yn gyffredinol, ddim mor aeddfed a dadansoddol â'r elfen hon. Ychydig oedd wedi cydio mewn llinyn o'r chwedl a thrafod mewn dyfnder y modd y gwelwyd y llinyn yn datblygu'n ddiweddarach. Er bod llawer wedi cyfeirio at wendid Matholwch fel arweinydd, bodloni ar gyfeirio at dorri'r bont dros afon Llinon a wnâi'r mwyafrif, heb esbonio sut yr oedd hyn yn nodweddiadol o'i lwfrdra, ac amlhau enghreifftiau fel y modd y ceisiodd gael gwared ar deulu Llasar Llaes Gyfnewid a chuddio'r milwyr yn y sachau ar golofnau'r tŷ a godwyd er parch i Fendigeidfran.



© WJEC CBAC Cyf.

Dylid parhau i gynghori ymgeiswyr i edrych ar y ddau gwestiwn er mwyn ceisio osgoi ailadrodd yn ormodol.  Gan fod thema ‘cynnen’ yn ganolog i’r dyfyniad eleni, efallai fod dyblygu’n amlycach.  Dylid pwysleisio perthnasedd wrth benderfynu pa nodweddion arwyddocaol i’w cynnwys, gan fod tuedd gan rai ymgeiswyr i geisio cynnwys popeth roedden nhw’n ei wybod, hyd yn oed cyfeiriad at chwedl onomastig, Talebolion.

Gwelwyd dyfynnu i bwrpas gan ymgeiswyr o’r band canol i fyny, gyda nifer dda yn dyfynnu o rannau eraill y chwedl, yn aml gan ddefnyddio’r orgraff wreiddiol, yn ogystal â chyfeirio at ddarllen ehangach a sylwadau ysgolheigion.

**C1. (b)**

Roedd mwyafrif yr ymgeiswyr yn gyfarwydd â’r term ‘cynnen’, er nad pob un, a rhai’n nodi hynny’n amlwg ym mrawddeg gyntaf eu hateb!  Gwelwyd atebion cynhwysfawr, rhai’n hynod o dreiddgar yn amlinellu gwahanol agweddau, fel y digwyddiadau a sbardunodd y gynnen, y ffordd mae’r gynnen yn ailgodi’n gyson, yr is-themâu fel sarhad, dial, iawndal, y diniwed yn dioddef a llid Efnysien.  Roedd rhai yn amlwg yn ansicr ynglŷn ag union ystyr rhai o’r termau gyda gosodiadau fel ‘*i gael ei sarhad wnaeth Matholwch yrru Branwen o’r un ystafell…'* Roedd nifer o’r ymgeiswyr ar y bandiau o’r canol i lawr yn methu â chyfyngu eu hunain i’r thema ond yn trafod yn holl themâu, gan roi sylw manwl i berthynas a hudoliaeth yn ogystal.

Llwyddodd y mwyafrif i gynnwys enghreifftiau o ddigwyddiadau’r chwedl i gadarnhau eu gosodiadau, er bod llawer yn defnyddio’r enghreifftiau amlwg yn unig.  Wrth drafod sarhad, er enghraifft, defnyddid sarhad Efnysien wrth iddo anffurfio ceffylau Matholwch, heb ystyried bod cymeriadau eraill yn cael eu sarhau hefyd.  Roedd yr un trais yn sarhad ar Fendigeidfran oherwydd ei anallu i amddiffyn ei westai.  Wrth drafod thema y diniwed yn dioddef, yr enghraifft amlwg oedd Branwen, ond heb ystyried bod Matholwch hefyd wedi dioddef ar gam, gan iddo ddilyn y drefn gywir wrth ofyn am law Branwen.  Felly hefyd yr oedd Bendigeidfran yn ymddwyn yn unol â chonfensiynau’r oes, ond eto yn dioddef, a Gwern yntau yn dioddef canlyniadau erchyll er na wnaeth unrhyw beth i haeddu ei farwolaeth.  Roedd y goreuon yn gallu ymhelaethu ac o ganlyniad dangosent eu meistrolaeth o’r testun. Dangosai nifer ddarllen a dealltwriaeth ehangach drwy gymharu cosb Branwen gyda Rhiannon, ac ymateb Pwyll a Matholwch wrth weinyddu’r gosb honno.

Y siom fwyaf gyda’r cwestiwn hwn oedd y ffaith mai ychydig iawn o’r ymgeiswyr oedd yn defnyddio’r dyfyniad fel sail i’w hatebion.  Yn wir, lleiafrif oedd yn cydnabod y dyfyniad o gwbl!  Roedd dyfyniadau allweddol y dylid bod wedi cydio ynddynt wrth drafod thema ‘cynnen’, fel ‘*ony chaei dial y sarahet’*, *‘sef dial a wnaethant’, ‘doluryaw a wnaeth o glybot y poen oed ar Uranwen’*.  Roedd mwyafrif yr atebion, yn anorfod, yn cyfeirio at rai o ddigwyddiadau’r dyfyniad, ond teimlid mai drwy ddamwain y cyfeirid atynt yn hytrach na thrwy fwriad a chynllunio.

Yn gyffredinol, defnyddiwyd llai o ddyfyniadau yn 1b na’r hyn a welwyd yn 1a er mai prin oedd yr ymgeiswyr nad oeddent yn defnyddio unrhyw ddyfyniadau o gwbl.  Eto, dros Adran A yn gyfan gwbl gwnaed defnydd effeithiol o ddyfyniadau ysgolheigion a chyfeiriadau at eu barn.  Gwnaethpwyd cryn ddefnydd o sylwadau Sioned Davies, yn naturiol, ond gwelwyd cyfeiriadau eang – Brynley F. Roberts, Saunders Lewis, Aled Llion Jones, J. K. Bollard, Gwyn Thomas, Branwen Jarvis, Proinsias Mac Cana, Christine James, Ian Hughes, Catherine Byfield, Rhiannon Ifans ymhlith eraill, a rhai na lwyddais i’w cadarnhau eto! Roedd rhai atebion yn hynod o ddeallus a chynhwysfawr ac wedi eu strwythuro’n effeithiol. Bu’n bleser darllen nifer dda ohonynt.



© WJEC CBAC Cyf.

**Adran B: Yr Hengerdd a'r Cywyddau**

**C2. (a)**

Gallai mwyafrif yr ymgeiswyr gyflwyno ffeithiau perthnasol am gefndir Dafydd ap Gwilym – dyddiadau, teulu, man geni ac ati. Gallai ymgeiswyr cryfach drafod effeithiau gwleidyddol y cyfnod ar y gyfundrefn farddol, dylanwad Dafydd ap Gwilym ar ddatblygiad y cywydd a'r damcaniaethau am y dylanwadau ar ei waith. Gwelwyd llawer o ymgeiswyr yn methu dethol y wybodaeth berthnasol i'w chynnwys, gan draethu'n estynedig am y cywyddau llatai, a chywydd 'Yr Wylan' yn arbennig, a chefndir Morfydd a Dyddgu.

Amrywiol oedd gallu ymgeiswyr i berthnasu eu sylwadau i'r dyfyniad ei hun. Doedd rhai atebion prin yn crybwyll y dyfyniad, eraill yn neilltuo adran fer ar y diwedd iddo, eraill yn aralleirio cynnwys y dyfyniad a nodi lle'r dyfyniad yn y gerdd yn gyfan gwbl ond eto, heb gymhwyso nac enghreifftio rhannau sy'n cyfleu cefndir y gerdd yn benodol. Mae angen i ymgeiswyr ddewis 4 neu 5 o ddyfyniadau arwyddocaol o'r gerdd sy'n cysylltu â'r cefndir e.e. gellid cysylltu dyfyniad fel '*tru tremyn'* neu '*nid oedd gampau da'* i enghreifftio'r ffaith mai cywydd tro trwstan ydyw, '*drwg fydd tra awydd'* neu '*drygioni drud'* i enghreifftio dylanwad y Foeswers Ganoloesol, y cais i daro '*ar wely'r ferch'* fel enghraifft o ddylanwad yr alba, '*drisais mewn gwely drewsawr… Hicin a Siencyn a Siac'* i ddangos agwedd y bardd at y Saeson, a'r rhwystrau fel yr *'ystôl groch ffôl'* a'i '*gwymp dig'* i adlewyrchu dylanwad y Fabliaux cyfandirol. Fodd bynnag, gellid tynnu sylw at y ffaith bod Dafydd ap Gwilym wedi addasu'r ffurf drwy droi'r mynegiant i'r person cyntaf, gan ddefnyddio'r berfau '*Ceisiais… Cefais… Briwais… Trewais*.' Mae hynny'n llawer mwy perthnasol nac adrodd cynnwys y dyfyniad i gyd ac y dangos gwell dealltwriaeth o effaith y cefndir ar y gerdd ei hun. Yn sicr, ni ddylid ystyried cefndir y bardd a'r gerdd fel dau ateb ar wahân. Y nod yw plethu'r cefndir yn gyffredinol â dyfyniadau o'r gerdd.

Cyfeiriwyd yn helaeth at farn ysgolheigion gan amrywio o Thomas Parry, Ifor Williams, Gwyn Thomas, Bleddyn Huws, Huw Meirion Edwards, Dafydd Johnston, Anthony Conran, ond cymharol ychydig gyfeiriodd at sylwadau Dylan Foster Evans yn ei nodiadau ar wefan CBAC a'i ddamcaniaeth am '*Hicin a Siencyn a Siac'* fel beirniadaeth ar yr uchelwyr Cymreig yn benodol.

Eto eleni, gwelwyd ambell ganolfan yn defnyddio agoriad unffurf gan bob ymgeisydd, ond maent yn prinhau. Gwelwyd hefyd rai llithriadau digon doniol, fel cyfeiriadau at ewythr Dafydd ap Gwilym fel '*Cwnstabl Castell Newydd Englyn'*, enw'r bardd fel '*Dafydd ap Morgan'* a'r cywydd yn enghreifftio '*cerddi troeon trwstang'.*

**C2. (b)**

Yn gyffredinol, roedd atebion 2b yn wannach nag atebion 2a eto eleni ac roedd camamseru'n ffactor gan sawl ymgeisydd. Fodd bynnag, roedd diffyg gwybodaeth hefyd yn rhan o'r achos. Beth bynnag fu'n gyfrifol roedd llawer o'r atebion hyn yn fwy cryno na'r lleill a hynny wedyn yn arwain at atebion llai cynhwysfawr a threiddgar. Serch hynny, cafwyd rhai atebion rhagorol, yn dangos dealltwriaeth ac ymdriniaeth aeddfed â chrefft y gerdd.

Er bod stwythuro'r ateb fesul llinell yn parhau i ddigwydd, roedd mwy o ymdrech eleni i geisio trefnu'r atebion yn fwy rhesymegol. Llwyddodd rhai ymgeiswyr i wneud hynny'n gelfydd, drwy gasglu nodweddion tebyg at ei gilydd, fel nodweddion y mesur, technegau oedd yn pwysleisio'r delfrydau arwrol, cyfeiriadau at adeiladwaith y gerdd a thechnegau'n ymwneud â sain. Prin oedd yr ymgeiswyr hyn, ond roedd darllen eu gwaith yn bleser. Ychydig o'r atebion oedd yn tynnu sylw penodol at soniaredd y canu, mewn cerdd sy'n gyforiog o odlau mewnol, odl gudd, chwarae ar eiriau, cyflythreniad, heb sôn am gynnal y brifodl '*-aid'* drwy'r gerdd.



© WJEC CBAC Cyf.

Roedd nifer dda yn cynnig pob manylyn a wyddent am y gerdd, gan arwain at ragymadroddi helaeth am gefndir Taliesin a'r Hen Ogledd yn hytrach na chanolbwyntio ar nodweddion arddull. Bu peth dryswch, gyda nifer yn cyfeirio at frwydr Catraeth.

Gallai mwyafrif yr ymgeiswyr adnabod nodweddion addas. Y rhai a drafodwyd amlaf oedd y geiriau cyfansawdd, odlau, cyflythreniad, trosiadau, cyffelybiaeth, lleihad ac ailadrodd i greu undod. Amrywiai safon y drafodaeth ar effaith y nodweddion hyn. Strwythurai'r goreuon atebion celfydd ond rhestr siopa braidd yn gatalogaidd a welwyd gan lawer eto eleni, a safon y drafodaeth yn arwynebol ar adegau. Y drefn fel arfer oedd enwi'r nodwedd a'i henghreifftio drwy ddyfynnu, cyn cynnwys un frawddeg i esbonio'r effaith. Ar gyfer sicrhau marciau a fydd yn codi ymgeiswyr i'r bandiau uchaf mae angen ymdriniaeth aeddfetach na hyn.

Bu peth camddeall yma hefyd gyda rhai ymadroddion yn baglu amryw o ymgeiswyr. Credai nifer bod gan y trosiad '*medel galon'* gysylltiad â chalonnau neu â medalau er anrhydedd, a bod y cyfeiriad at '*Lloegr llydan nifer'* a gysgai '*â lleufer yn eu llygaid'* yn sôn am ofnadwyaeth yn atal y Saeson rhag cysgu.

Defnyddiwyd cyfeiriadau at ddamcaniaethau ysgolheigaidd yn gynnil ac yn ddigon effeithiol – gwaith Gwyn Thomas ac Ifor Williams yn bennaf, ac yn llai mynnych, Peredur Lynch a Marged Haycock.

Roedd safon iaith a mynegiant yr ymgeiswyr yn gyffredinol dda. Câi rhai eu cyfyngu oherwydd diffyg cymhlethdod eu syniadau a'u dadleuon. Er bod y mynegiant yn dderbyniol ar y cyfan, roedd rhai gwallau cyffredin y dylid bod wedi ceisio eu dileu cyn cyrraedd diwedd eu taith yn y chweched dosbarth. Cyffredin oedd cynnwys yr arddodiad '*pwysleisio ar'* a chamddefnyddio'r ferf amhersonol – '*dywedir yr ysgolhaig'*. Gwelid dylanwad y Saesneg mewn ymadroddion fel '*cawn y thema o lid Efnysien wrth iddo weld coch'*, a '*pigodd Dafydd ap Gwilym i fyny ar nifer o ddylanwadau Ffrengig'.*

Mae'n amlwg i fwyafrif y canolfannau ymateb i'r cynghorion a'r argymhellion a wnaed y llynedd a bod y gofynion yn gliriach. Diolch i'r ymgeiswyr a'r athrawon am eu gwaith caled.



© WJEC CBAC Cyf.

**CYMRAEG IAITH GYNTAF UNED 6**

**Tystysgrif Addysg Gyffredinol (Newydd)**

**Haf 2018**

**Uwch Gyfrannol/Uwch**

**Adran A Gwerthfawrogi Llenyddiaeth**

Mae'n deg nodi bod mwyafrif yr ymgeiswyr yn ddigon cartrefol yn trafod y gerdd *Nadolig 1966*. Roedd y gerdd wrth gwrs yn gyforiog o themâu posib i'w trafod, themâu eang eu hapêl a gynigiai gyfleoedd i drafod yn synoptaidd.

Dylid pwysleisio mai gwobrwyo dadansoddiad ystyrlon a deallus a wneir a phleser oedd darllen dehongliadau rhai ymgeiswyr.

Isod ceir sylwadau cyffredinol ar wahanol agweddau o'r meini prawf asesu:

**Cynnwys**

Cryfderau

- Prin iawn oedd yr ymgeiswyr na ddeallodd bod neges y Nadolig a hanes genedigaeth yr Iesu yn treiddio drwy'r gerdd.
- Roedd rhai yn trafod y cwpled cyntaf yn llwyddiannus, gan ddeall arwyddocâd y cwestiwn cyntaf sy'n gosod naws i'r gerdd.
- Roedd nifer yn deall mai sgwrs/deialog yw rhan agoriadol y gerdd.
- Sylwodd nifer ar y gwrthgyferbyniad yn adeiladwaith y gerdd a'r newid cyfeiriad yn y rhan olaf.
- Trafodwyd arwyddocâd *'I'* ac *'Ef'* yn llwyddiannus gan rai ymgeiswyr.
- Roedd nifer yn llwyddo i dynnu sylw at hanes genedigaeth yr Iesu gan gyfeirio at y bugeiliaid, y doethion, angel yr Arglwydd, y seren, Mair mam yr Iesu ynghyd â'r croeshoelio – eto amrywiol iawn oedd dehongli a dadansoddi arwyddocâd hyn oll yng nghyd-destun y gerdd.
- Roedd trafod natur gweddi'r clo yn dda iawn gan rai.

Gwendidau

- Er bod paragraff o esboniad i gyd-destun y gerdd, ni lwyddodd nifer o ymgeiswyr i fanteisio ar hyn ac o'r herwydd ni chyfeiriwyd at y siop elusen.
- Ni ddeallodd nifer mai ymatebion pobl Durham yw'r hanner cyntaf sef llais y siopwyr, ac mai'r holwr/person â barn wahanol sy'n holi *'Oni chredwch… newynog?'* Credai nifer mai agwedd y bardd a geid yma.
- Roedd nifer wedi camddehongli *'ysgafnu pwn y rhai sy'n llwythog'*- awgrymu mai gwacáu pocedi'r bobl gyfoethog oedd ei ystyr ac yn gwrthgyferbynnu â'r noeth a'r newynog.
- Ychydig o ymgeiswyr yn unig a roddodd sylw i'r holl gerdd, rhannau o'r gerdd gâi sylw gan nifer e.e. trafod un neu ddau ymateb yn yr hanner cyntaf – dim sylw i'r gweddill, esbonio *'tywyllwch'* a chlo'r gerdd yn yr ail hanner, dim sylw i weddill cynnwys yr ail hanner.
- Roedd angen mwy o ddehongli'r clo gan y mwyafrif.



© WJEC CBAC Cyf.

**Arddull**

Cryfderau

- Roedd arddull yn cael sylw da gan y mwyafrif ac yn plethu'n naturiol i'r drafodaeth/dehongliad. Prin oedd y traethodau nad oedd wedi rhoi sylw i arddull eleni.
- Roedd sylwadau ar effeithiolrwydd nodwedd arddull yn ychwanegu at y dehongli gan lawer. Llwyddai'r goreuon i drafod arddull yn feistrolgar.
- Tuedd oedd canolbwyntio ar y dechneg o gwestiynu a chwestiynau rhethregol yn y rhan gyntaf, cyn troi i gyfeirio at dafodiaith, bratiaith ac odli. Yn yr ail ran y duedd oedd canolbwyntio ar ailadrodd *'Tywyllwch'*, y gyfeiriadaeth Feiblaidd, a'r cwestiynau rhethregol i gloi.
- Roedd y goreuon yn clywed llais y doethion, a chyferbynnu eu haelioni wrth roi'r anrhegion yn fawl iddo Ef gydag hunanoldeb siopwyr Durham. Yn yr un modd gallai'r goreuon weld y croeshoelio fel delwedd o dywyllwch y ddynoliaeth yn rhoi hoelen arall yn arch brawdgarwch a gofal am gyd-ddyn. Deallent hefyd arwyddocâd y cwestiynu a'r ailadrodd yng nghlo'r gerdd a'r ymbil ar y Forwyn Fair i dywys y seren, y goleuni a gwir ystyr y Nadolig yn ôl i Ddurham.
- Roedd termau arddull yn cael eu defnyddio'n llwyddiannus gan lawer iawn o'r ymgeiswyr.
- Roedd y goreuon yn trafod effaith y mesur yn ddeallus.

Gwendidau

- Gwelwyd ansicrwydd termau arddull gan nifer fechan, gan ddrysu yn arbennig enw/ansoddair/berf; galw *'a lathrwyd'* yn ansoddair, galw *'hael'* yn enw, galw '*newynog'* yn enw. Roedd rhai'n drysu cysylltair *'a'*/geiryn gofynnol '*a'*/ rhagenw perthynol *'a'.*
- Prin oedd yr ymgeiswyr hynny allai drafod effeithiolrwydd yn nefnydd y bardd o dafodiaith, geiriau benthyg ac iaith sathredig yn y rhan gyntaf.
- Gwelwyd colli cyfle i drafod effaith cyflythrennu yn y llinellau *'Ac yn y tywyllwch, hongian, Yn y tywyllwch, hoelion. Gwlyb yn y tywyllwch yw'r gwaed...'*

**Themâu**

Cryfderau

- Roedd themâu fel hunanoldeb, gwir ystyr/colli ystyr y Nadolig, helpu eraill, pigo cydwybod, crefydd yn cael sylw gan fwyafrif yr ymgeiswyr.
- Gwelwyd y goreuon yn dehongli cymdeithas faterol, euogrwydd, ewyllys da, parch, beirniadaeth, brawdgarwch, gwerthoedd pobl, dioddefaint, anghyfiawnder, difaterwch, rhagrith cymdeithas, anobaith/gobaith, dynoliaeth.

Gwendidau

- Roedd themâu yn cael eu hadnabod a'u hamlygu gan sawl un, ond roedd y manylu ar gynnwys y gerdd er mwyn esbonio, trafod a darlunio'r thema yn brin.
- Un gwendid amlwg eleni, efallai oherwydd hyder yr ymgeiswyr i drafod y themâu uchod oedd cynnwys trafodaethau athronyddol, cyffredinol am golli gwir ystyr y Nadolig. Canlyniad hyn oedd colli golwg ar gynnwys y gerdd. Y gamp yw trafod y themâu yng nghyd-destun y darn gan ddefnyddio dyfyniadau a thechnegau arddull wrth ddadansoddi



© WJEC CBAC Cyf.

**Synoptig**

Cryfderau

- Prin iawn iawn oedd y traethodau heb synoptig neu ychydig iawn o synoptig. Llwyddwyd i blethu'r cysylltiadau synoptig drwy'r traethawd yn well eleni.
- Roedd cysylltiadau synoptig perthnasol y tu hwnt i'r fanyleb yn cael eu cynnig gan gymharu gyda'r gerdd - gweithiau megis e.e. *'Tywyll Heno', '60', 'Pantglas'*, straeon Lleucu Roberts, *'Nadolig Caerdydd',* storïau Dylan Iorwerth*, 'Edau Bywyd' Botany Bay, Cysgod y Cryman, Y Dywysogaeth, cerddi Rhys Iorweth.*
- Gallai'r goreuon gynnig ffresni a dealltwriaeth aeddfed wrth gymharu.

Gwendidau

- Gwelwyd cyfeirio at y synoptig yn rhy sydyn neu mewn mwy o fanylder na'r gerdd ei hun - cafwyd enghreifftiau lawer lle'r oedd y cyfeiriadau synoptig yn hirach na'r sylwadau ar y gerdd.
- Roedd rhai cyfeiriadau synoptig llac iawn eu perthnasedd i'r gerdd.
- Nodwyd awduron/beirdd anghywir i'r testun synoptig.
- Roedd gorddibyniaeth ar destunau'r fanyleb a TGAU Llenyddiaeth Gymraeg wrth drafod y synoptig gan nifer eleni.

**Saernïo**

Cryfderau

- Cafwyd traethodau cytbwys yn trafod cynnwys, themâu, arddull a'r synoptig wrth fynd yn eu blaenau.
- Symudwyd yn drefnus o baragraff i baragraff gyda dilyniant o fewn paragraff a chlo ystyrlon, ar ei orau yn cyfleu hanfod y gerdd.
- Ysgrifennwyd paragraffau agoriadol addas yn crynhoi'r cynnwys a rhestru'r themâu gan lawer.
- Roedd y goreuon yn dangos dealltwriaeth dda o'r cynnwys, yn adnabod themâu, yn dyfynnu, ac yn dehongli'n glir.

**Iaith a mynegiant**

Cryfderau

- Rhaid canmol cywirdeb, amrywiaeth brawddegol a geirfa.
- Lluniwyd traethodau darllenadwy iawn.
- Roedd y goreuon yn ysgrifennu'n goeth a meistrolgar gan arddangos aeddfedrwydd a chyfoeth iaith.

Gwendiadau

- Iaith – roedd mynegiant gwallus, aneglurdeb yn effeithio'r dehongli, dewis o air yn cymylu'r ystyr ynghyd â gwallau treiglo.
- Mae angen mwy o sylw ar wallau berfol: *sonnir y bardd, adroddir y bardd* a hefyd ambell gystrawen *'fod mae'.*
- Camddefnyddiwyd terminoleg gramadeg wrth drafod e.e. nodi bod *'tywyllwch'* yn ansoddair.

**Adran B Y Gymraeg mewn Cyd-destun**

Mae'n bwysig bod yr ymgeiswyr yn caniatáu digon o amser i gwblhau'r cwestiwn er mwyn cynllunio a meddwl cyn ysgrifennu. Dylai'r ymgeiswyr hefyd gael digon o gyfleoedd i ymarfer ysgrifennu'r ffurfiau hyn er mwyn paratoi ar gyfer yr arholiad.



© WJEC CBAC Cyf.

**Ffurf a chywair**

Cryfderau

- Roedd yr adroddiadau llwyddiannus yn arddangos sicrwydd o ran ffurf a chywair.

Gwendidau

- Roedd nifer heb bennawd.
- Ychydig iawn a lwyddodd i gynnal y cywair drwy'r adroddiad. Collai'r mwyafrif y cywair rywbryd, gan fynegi barn, yn arbennig yn ail hanner y gwaith. Roedd eraill yn mynegi barn yn gyson.
- Roedd nifer yn defnyddio cwestiynau rhethregol yng nghorff yr adroddiad.

**Dewis a dethol**

Cryfderau

- Roedd bandiau uwch yn llwyddo'n dda iawn i ddewis a dethol, gan roi sylw i'r pwyntiau cadarnhaol a negyddol.
- Cafwyd dyfynnu mewn cyd-destun yn llwyddiannus gan nifer. Llwyddai'r goreuon i roi'r dyfyniadau mewn cyd-destun a'u dehongli.
- Gwelwyd tystiolaeth bod rhai ymgeiswyr wedi bras gynllunio cyn ysgrifennu ac roedd hyn wedi talu ar ei ganfed.
- Llwyddai'r bandiau uchaf i gymhwyso gwybodaeth a'i defnyddio yn hytrach na'i chyflwyno'n unig.

Gwendidau

- Nid oedd rhai wedi rhoi sylw i'r pwyntiau negyddol.
- Roedd rhai yn rhoi '*Eryri'* yn eu teitl, ond yn trafod Pen y Fan – heb ddewis a dethol yn ddigon gofalus. Roedd rhai'n cyflwyno '*tâl am gerdded a pharcio'*, ond dim ond yn ystyried tâl cerdded yn yr adroddiad.
- Roedd rhai yn ychwanegu llun o broblemau parcio Pen y Fan ond heb dalu sylw at broblem parcio.
- Trwydded – roedd rhai'n sôn am sylwadau negyddol Jonathan Cawley cyn cyflwyno'r syniad o gael trwydded.
- Câi nifer drafferth i gymhwyso dyfyniadau gan eu defnyddio i ychwanegu at yr adroddiad/stori.

**Saernïo**

Cryfderau

- Llwyddiannus oedd yr adroddiadau a sicrhâi linyn cyswllt cryf drwy'r gwaith, e.e. cost cynnal a chadw, lansiad yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, yr apêl, codi tâl. Roedd hyn yn rhoi fframwaith i'r cyfan, ac o ganlyniad yn sicrhau dilyniant ystyrlon ac adeiladol o baragraff i baragraff, o frawddeg i frawddeg.
- Roedd agoriad yn ennyn diddordeb y darllenydd a chlo addas yn esbonio'r camau nesaf.

Gwendiadau

- Gwelwyd bod nifer yn colli'r dilyniant ystyrlon. Roedd y rhai heb linyn yn dueddol o golli'r dilyniant, yn neidio o bwynt i bwynt – yn ddigyswllt gan sawl un. Mae angen datblygu pwyntiau/paragraffau yn llawnach.
- Cafwyd enghreifftiau o gynnwys o fewn y paragraffau yn gymysglyd.
- Roedd nifer heb glo ac o'r herwydd ni thynnwyd y llinynnau at ei gilydd gan egluro'r camau nesaf.



© WJEC CBAC Cyf.

- Isbenawdau: os defnyddir y rhain, mae angen iddynt fod yn glir a chyson; mae angen i'r paragraff dan yr isbennawd fod yn berthnasol i deitl yr isbennawd (cafwyd isbenawdau a chynnwys a oedd yn trafod agweddau hollol wahanol i'r isbenawdau).

**Gwreiddioldeb**

Cryfderau
- Gwelwyd ychwanegiad synhwyrol, perthnasol gan sawl ymgeisydd a oedd yn ymestyn pwynt o'r daflen arholiad ac yn gwneud yr adroddiad yn llawer mwy diddorol, e.e. barn ddychmygus pobl leol.
- Datblygwyd pwyntiau drwy'r gwreiddioldeb a sicrhawyd dilyniaant drwy'r ychwanegiadau gwreiddiol.

Gwendidau
- Roedd gwreiddioldeb perthnasol yn brin gan nifer o ymgeiswyr. Collwyd cyfleoedd gan nifer i dynnu ar eu profiad/gwybodaeth bersonol.

**Iaith a mynegiant**

Cryfderau
- Roedd iaith band 1 a 2 yn gywir, yn ddigon graenus, yn gwneud defnydd o ferfau cryno ac yn amrywio cystrawen.
- Llwyddai'r goreuon i roi cyffyrddiadau o'r presennol a'r dyfodol – hyn yn dod ag elfen realistig a phwrpas i'r adroddiad.

Gwendidau
- Defnyddiwyd y ferf amhersonol yn hytrach na'r ferf bersonol, e.e. dywedir Gwynedd Watkin…
- Roedd cymysgu berfau presennol ac amherffaith yn gyffredin iawn.
- Camddefnyddiwyd hwn/hon e.e. y syniad hon.
- Defnyddiwyd pwyntiau bwled o fewn yr adroddiad.
- Pan roddwyd marciau i adroddiadau ym mandiau 3/4/5 roedd hynny oherwydd gwallau treiglo niferus, terfyniadau berfol anghywir a chystrawennau gwallus. Yn aml roedd y cynnwys yn well na'r band.
- Roedd llawysgrifen yn fwy o broblem eleni.

Hoffwn ddiolch i'r athrawon am ysbrydoli'r ymgeiswyr i fwynhau llenyddiaeth a'u paratoi gystal ar gyfer yr arholiad.



© WJEC CBAC Cyf.

CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd  CF5 2YX
Ffôn: 029 2026 5000
Ffacs: 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
gwefan: www.cbac.co.uk